



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun Llywodraeth Cymru

Canolbwyntio ar ddefnyddio cyllidebau cyfun sy'n
ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl dros 65 oed

Mehefin 2020

Cynnwys

	Tudalen
Trosolwg o'r Adolygiad	4
— Asesiad Cryno	16
 Adolygiad o gronfeydd cyfun yn ôl rhanbarth	
— Caerdydd a Bro Morgannwg	19
— Cwm Taf Morgannwg	36
— Gwent	53
— Gogledd Cymru	70
— Powys	87
— Gorllewin Morgannwg	104
— Gorllewin Cymru	121
 Cyfeiriadau	138

Trosolwg o'r Adolygiad

Cwmpas a phwrrpas yr adolygiad

1. Cwmpas

Yn ddiweddar daeth elfennau allweddol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ofyniad statudol ar gyfer Cyrff Partneriaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad ar y cynnydd y mae pob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth rhanbarthol wedi'i wneud wrth ddatblygu cronfeydd cyfun. Roedd yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn (65 oed neu'n hŷn), sy'n gymesur â'r gwariant blynyddol disgwyledig ar leoedd cartrefi gofal i bobl hŷn.

2. Pwrrpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r arsylwadau a'r argymhellion o'r adolygiad hwn. Aseswyd pob un o'r saith BPRh ar eu cynnydd o ran gweithredu cronfeydd cyfun yn unol â'r gofynion a roddir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r Tîm Adolygu wedi darparu argymhellion i'w hystyried, yn dilyn yr asesiad.

3. Ein Dull

Roedd y gwaith hwn yn golygu ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r saith BPRh ac adolygwyd gwybodaeth a oedd eisoes yn cael ei gadw gan y BPRh a Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyllidebau cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn i lywio ein harsylwadau a'n hargymhellion.

Roedd dwy elfen wahanol i'r gweithgaredd adolygu craidd. Yr elfen gyntaf oedd adolygiad pen desg o ddogfennaeth y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Yna darparwyd y wybodaeth gan bob un o'r BPRh i ddangos tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed tuag at y cyllidebau cyfun penodol hyn a'u harfer gweithredol cyfredol. Y meysydd allweddol a ystyriwyd ar gyfer hyn oedd:

- Pwrrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun
- Trefniadau llywodraethu cronfeydd
- Sut mae penderfyniad yn cael ei wneud
- Trefniadau rhannu risg
- Canlyniadau cychwynnol trefniadau'r gronfa gyfun
- Datblygiadau yn y dyfodol
- Cydweithio rhwng partneriaid

Yr ail elfen oedd cwrdd â'r BPRh i ddilysu'r wybodaeth o'r adolygiad pen desg ac archwilio'r meysydd hyn ymhellach. Dylid nodi bod y Tîm Adolygu wedi seilio ein hasesiad ar ddata a ddarparwyd gan y BPRh ym mis Medi 2019 a gwybodaeth o gyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol a awgrymwyd gan yr BPRh. Ni wnaeth y Tîm arsylwi cyfarfodydd BPRh ac nid yw wedi cynnal unrhyw ddilysiad manwl pellach. Gwnaethom asesu pob Bwrdd yn erbyn meysydd allweddol a luniwyd gan y gofynion a roddir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

Defnyddiodd y Tîm Adolygu raddfa aeddfedrwydd 5 pwynt ar gyfer cysondeb a thynnwyd ar ein harsylwadau i ddarparu argymhellion i'w hystyried. Gwnaethom ddarparu'r adrannau asesu BPRh i'r BPRh priodol i gadarnhau cywirdeb ffeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r drafft ac wedi darparu her ac adborth.

Mewn perthynas â'r adolygiad hwn, mae rolau'r partion priodol fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru a gomisiynodd yr adolygiad a chawsant gymorth KPMG, eu partner darganfod.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth, arweiniad, adborth a her trwy gydol yr adolygiad.
- Mae BPRh wedi cyfrannu gwybodaeth a thystiolaeth trwy ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad pen desg a thrwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid. Mae BPRh wedi dilysu cynnwys y gwerthusiad am gywirdeb ffeithiol.

Dull (parhad:)

3. Ein Dull

Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd.

1. Mobileiddio a chais am ddata



- 1.1 Cynnal sesiwn mobileiddio
- 1.2 Cytuno ar ddulliau cysylltu â rhanddeiliaid, gweithgareddau a llinell amser
- 1.3 Cytuno ar feini prawf gwerthuso
- 1.4 Cais am ddata i bob un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- 1.5 Ceisiadau data i gyrff partner

2. Gweithgaredd adolygu craidd



- 2.1 Adolygu gwybodaeth a gedwir eisoes gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â cheisiadau data wedi'u cwblhau ar gyllidebau cyfun:
 - Lleoedd llety mewn cartrefi gofal
- 2.2 Mynychu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i:
 - profi aeddfedrwydd y gyllideb gyfun
 - profi aeddfedrwydd trefniadau comisiynu
 - Deall cynlluniau datblygu ar gyfer gwella yn y dyfodol

3. Adroddiad



- 3.1 Adolygu'r canfyddiadau cychwynnol
- 3.2 Datblygu'r adroddiad terfynol


Trosolwg o'r Gwerthusiad

4. Fframwaith Gwerthuso

Er mwyn asesu'r defnydd o gronfeydd cyfun ar draws y BPRh, mae'r tîm adolygu wedi defnyddio fframwaith, i asesu aeddfedrwydd ar draws ystod o feysydd allweddol ac i ddarparu dull asesu cyson ar gyfer:

1. Cwmpas;
2. Llywodraethu;
3. Gwneud penderfyniadau;
4. Rhannu risg;
5. Canlyniadau;
6. Datblygiadau yn y dyfodol; a
7. Cydweithio.


Mae gan bob asesiad rywfaent o naratif ychwanegol i ddangos tystiolaeth o'r gwerthusiad. Lle bo hynny'n bosibl, rydym wedi cynnwys argymhellion i'w hystyried. Mae'r diagram isod yn amlinellu'r raddfa aeddfedrwydd a thempled tabl tystiolaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad.



Amseriadau adolygu

5. Llinell amser adolygu

Roedd hwn yn adolygiad lefel uchel a gynhaliwyd rhwng Awst 2019 a Chwefror 2020. Ystwythwyd yr amserlen i ddarparu ar gyfer argaeledd ac amseroedd ymateb y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r llinell amser isod yn amlinellu pryd y cynhaliwyd y gweithgareddau allweddol.



Arsylwadau'r adolygiad

5. Arsylwadau allweddol

Isod, amlinellir arsylwadau allweddol yr adolygiad:

- **Mae'r BPRh yn cwrdd â'r gofyniad sylfaenol i raddau helaeth iawn** - Mae'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) wedi sefydlu cytundebau partneriaeth a threfniadau llywodraethu i reoli cronfeydd cyfun sy'n ymwneud â chartrefi gofal i bobl hŷn. Yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddogfennau a chyfweliadau, mae BPRh wedi cwrdd â'r gofynion sylfaenol i raddau helaeth iawn mewn perthynas â'r cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn.
- **Nid yw llawer o BPRh yn cyfuno cyllidebau ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn yn gorfforol** – nid yw pump o'r saith BPRh yn cyfuno cronfeydd yn gorfforol ac yn rhannu risg ariannol er bod eu hadroddiadau, eu llywodraethu a'u prosesau gwneud penderfyniadau yn awgrymu eu bod yn symud tuag at ddull cydweithredol.
- **Cefnogaeth BPRh ar gyfer cronfeydd cyfun** - Mae pob BPRh wedi mynegi cefnogaeth i ddefnyddio cronfeydd cyfun fel cyfrwng i ddarparu gwasanaethau integredig di-dor.
- **Pryderon BPRh** - Amlygodd y rhan fwyaf o BPRh fod cartrefi gofal i bobl hŷn yn faes cyntaf heriol i gyfuno cronfeydd, o dan y ddeddfwriaeth. Teimlai BPRh y byddai maes arbenigol llai, mwy diffiniedig wedi bod yn well ar gyfer cronfeydd cyfun rhanbarthol. Cododd nifer o'r BPRh bryderon ynghylch natur ragnodol ganfuwyd yn y gronfa gyfun hon, sy'n canolbwyntio'n llwyr ar gartrefi gofal i bobl hŷn. Roedd rhai o'r heriau allweddol a amlygwyd mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn yn cynnwys:
 - rheoli carfan amrywiol o ran angen ar draws ardaloedd (yn hytrach na gwasanaethau arbenigol, y bernid eu bod yn fwy addas ar gyfer dull cyfuno cronfeydd gan y BPRh); a
 - y risg o groes gymorthdalau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- **Ehangu cwmpas cyllidebau cyfun** - Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal BPRh rhag ehangu cwmpas eu cronfeydd cyfun i feysydd eraill, yn unol â'u model gofal a'u hagenda ar gyfer newid ar gyfer y rhanbarth. Mewn trafodaethau gyda'r BPRh, nodwyd bod enghreifftiau lle mae BPRh wedi cyfuno cronfeydd yn gorfforol i hwyluso gwell canlyniadau i'w dinasyddion mewn meysydd heblaw cartrefi gofal, a hynny'n awgrymu bod y BPRh yn agored i ddefnyddio cronfeydd cyfun fel lifer yn ehangach.
- **Defnyddio pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)** - Yn ddiweddar, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth ADSS i gefnogi rhanbarthau i sefydlu a sicrhau'r buddion mwyaf posibl o gronfeydd cyfun. Mae mwyafrif y BPRh yn y camau cynnar o archwilio'r pecyn cymorth ac nid ydynt eto wedi'i gymhwyso i'w prosiectau. Ni wnaeth yr adolygiad hwn asesu'r pecyn cymorth; fodd bynnag, gan ei fod ar gael i BPRh, byddem yn awgrymu eu bod yn ystyried y pecyn cymorth hwn fel adnodd ychwanegol wrth weithredu eu prosiectau cronfeydd cyfun, i gydymffurfio'n well â chanllawiau LIC.

Trosolwg o'r Arfer Cyfredol

6. Arfer Defnyddiol

Mae pob un o'r BPRh yn gweithredu eu cronfeydd cyfun yn wahanol. Nodwyd rhywfaint o arfer defnyddiol, y gellid ei rannu a'i ystyried gan y BPRh eraill.

Pwrrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun	Mae Cwm Taf Morgannwg yn cyfuno arian yn gorfforol ar draws 2 awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. Maent wedi goresgyn problemau mewn perthynas â llif arian ac wedi cytuno ar fecanwaith trosglwyddo cyfreithiol sy'n caniatáu i unrhyw wargedion gael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.
Rheolwr Cronfeydd Cyfun	Mae gan rai o'r rhanbarthau reolwr cronfeydd cyfun i gynyddu perfformiad ariannol a gweithredol i'r eithaf ac i gynnal cyfres o brosiectau datblygu/cynaliadwyedd marchnad gofal preswyl strategol. Mae rhai BPRh wedi ariannu'r swydd trwy gyfraniadau partneriaid fel Gogledd Cymru ac mae eraill wedi ariannu neu byddant yn ariannu'r swydd trwy gyllid y Gronfa Gofal Integredig (CGI) fel Gorllewin Morgannwg, Cwm Taf Morgannwg a Powys. Amlinellodd BPRh gyda Rheolwr Cronfeydd Cyfun, eu bod yn disgwyl i'r rôl ddod â chefnogaeth â ffocws a fydd yn cyfrannu at wella canlyniadau'r BPRh maes o law. Roedd y BPRh hyn yn cydnabod bod angen i'r gefnogaeth hon fod yn gynaliadwy yn enwedig lle gall y cyllid fod yn afreolaidd. Awgrymir bod y rôl ychwanegol hon yn cael ei gwerthuso ac os gellir cyflawni'r buddion ychwanegol hyn, yna gallai Rheolwr Cronfeydd Cyfun fod yn rôl werthfawr i bob un o'r BPRh.
Trefniadau llywodraethu cronfeydd	Mae Cwm Taf Morgannwg wedi rhoi sylw i nifer o ystyriaethau llywodraethu wrth sefydlu eu cronfa. Cytunir ar y gyllideb ymhlith partneriaid. Telir cyllid i'r gronfa bob chwarter ymlaen llaw. Maent wedi goresgyn problemau llif arian ac mae manylion gwariant yn dryloyw ac yn hawdd eu gweld. Mae'r cyfrifoldeb am gomisiynu a thalu am gartrefi wedi'i ddirprwyo yn ôl i'r awdurdod prynu lleol.

7. Buddion sy'n dod i'r amlwg

Mae BPRh wedi canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu'r cwmpas a'r strwythur yn ogystal â sefydlu'r trefniadau partneriaeth. Gwelir tystiolaeth o hyn yn yr adolygiad gyda sgoriau uwch yn gyffredinol ar gyfer meini prawf cwmpas a llywodraethu, o'i gymharu â meini prawf rhannu risg a chanlyniadau.

Nododd pob BPRh bod buddion yn dod i'r amlwg. Roedd y rhai mwyaf nodedig yn cynnwys:

Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata

Mae pob BPRh wedi nodi bod cael golwg ar y data o bob rhan o'r rhanbarth wedi eu helpu. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau strategol, cynnal sgysiau adeiladol ymhlith partneriaid a chodi ymwybyddiaeth amserol o unrhyw broblemau neu heriau.

Buddion comisiynu

Cafwyd nifer o fuddion mewn perthynas â chomisiynu. Mae'r buddion yn amrywio o ddatblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd i symud tuag at un system ar gyfer comisiynu, caffael a monitro contractau.

Gosod ffioedd

Mae sawl BPRh yn gweithio i ddatblygu methodoleg gosod ffioedd cyson.

Datblygiad a nodwyd

8. Meysydd a nodwyd ar gyfer datblygu

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae BPRh wedi canolbwyntio eu sylw ar osod cwrpas, strwythur a sefydlu'r trefniadau partneriaeth ar gyfer y cronfeydd cyfun. Mae nifer o'r BPRh wedi nodi eu bod yn bwriadu canolbwyntio nawr ar y 3 maes canlynol:

Aliniad

Tynnodd nifer o BPRh sylw at gymhlethdod y rhan hon o'r model gofal. Mae pob BPRh yn gweithio ar eu modelau gofal i'r dyfodol ac amlygodd nifer bwysigrwydd sicrhau bod arian yn cael ei alinio â strategaeth y dyfodol.

Comisiynu

Nododd pob BPRh y buddion comisiynu sy'n dod i'r amlwg. Roedd BPRh yn awyddus i barhau i symud y buddion hyn yn eu blaenau ac adeiladu ar y trefniadau comisiynu ar y cyd.

Rhannu risg

Mae prif ffocws BPRh wedi bod ar osod y sylfeini cywir. Mae rhai BPRh wedi nodi eu bod bellach mewn sefyllfa gryfach i drafod opsiynau a dulliau rhannu risg.

Argymhellion i'w hystyried

Argymhellion i'w hystyried			
Rhif	Maes	Arsylwadau	Argymhelliad i'w ystyried
1	Cydymffurfio â bwriad polisi	ar hyn o bryd nid yw pump o'r saith BPRh yn cyfuno cyllidebau mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn er bod trefniadau adrodd a llywodraethu wedi'u sefydlu.	Yn ystod yr adolygiad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi bod y ddeddfwriaeth yn bwriadu i bob BPRh gael cyllidebau cyfun corfforol. Gallai'r pum BPRh sydd heb wneud hyn ystyried modelau cyllidebau cyfun y BPRh eraill i helpu i werthuso'r un mwyaf priodol iddynt ei weithredu.
2	Rhannu risg	Ar hyn o bryd nid oes yr un o'r BPRh yn rhannu risgiau ariannol er bod mwy o dryloywder o ran gweithgaredd, gwariant a risgiau.	Datblygiad pellach o'r trefniadau cyllidebau cyfun fyddai adolygu trefniadau rhannu risg. Er enghraifft, gallent reoli'r gronfa gyfun fel cyllideb unedig. Byddai hyn yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth fwy di-dor ar draws sefydliadau, a fyddai'n ateb gofynion y boblogaeth.
3	Llywodraethu	Mae gan rai o'r rhanbarthau reolwr cronfeydd cyfun tra bod gan eraill rolau a allai gefnogi swyddogaethau gweinyddol.	Awgrymir bod rôl Rheolwr Cronfeydd Cyfun yn cael ei gwerthuso i sefydlu buddion posibl ychwanegol y rôl hon. Os gellir cyflawni'r buddion ychwanegol hyn, yna gallai Rheolwr Cronfeydd Cyfun ddod yn rôl ofynnol ar gyfer pob un o'r BPRh. Gallai'r rôl gynnwys hwyluso cyfuno cronfeydd yn gorfforol, trefniadau rhannu risg a datblygiadau'r gronfa gyfun yn y dyfodol.
4	Rhannu gwybodaeth	Byddai'n ddefnyddiol rhannu arfer nodedig ledled Cymru.	Byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh gael golwg ar y datblygiadau ar draws y BPRh eraill yng Nghymru. I gyflawni hyn, gellid sefydlu mecanwaith ar gyfer rhannu'r wybodaeth a'r gwaith y mae pob un o'r BPRh yn ei wneud mewn perthynas â chronfeydd cyfun ledled Cymru.

Argymhellion i'w hystyried

Argymhellion i'w hystyried			
Rhif	Maes	Arsylwadau	Argymhellion i'w hystyried
5	Pwrrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun	Yn fras, mae gan y mwyafrif o ranbarthau nodau sydd â chwmpas wedi'i ddiffinio'n dda a rhai cerrig milltir. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn blaenoriaethu ac yn rheoli'r cyllidebau fel un gronfa yn ymarferol.	Mae rhai elfennau i'w hystyried i gryfhau'r trefniadau cyllidebau cyfun yn cynnwys: – Trin cyllidebau cyfun fel un gronfa. – Blaenoriaethu nodau yn seiliedig ar bwysigrwydd neu frys a mesur buddion disgwylledig gyda DPA. – Alinio pwrrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun a'r agenda cyffredinol ar gyfer newid, gan gynnwys ei ehangu y tu hwnt i gartrefi gofal i bobl hŷn, lle bo hynny'n briodol.
6	Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd	Roedd gan BPRh gytundeb ar sut i wneud penderfyniadau. Roedd gan y mwyafrif o BPRh bartner arweiniol. Amlygodd pob rhanbarth y gallai BPRh ond gwneud argymhellion yn unig ac nid penderfyniadau gan nad ydynt yn endidau cyfreithiol.	Er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, gallai'r BPRh ystyried: – Sefydlu trefniadau llywodraethu ysgrifenedig y mae'r holl bartneriaid yn ymrwymo iddynt. – Diffinio proses gymeradwyo a rhoi mesurau lliniaru ar waith, er mwyn lleihau'r risg o orwario. – Dilysu bod penderfyniadau sydd ar ddod yn cael eu cytuno a'u dogfennu ar draws y BPRh ac yn dilyn deddfwriaeth Adran 33.
7	Sut y rhennir y risg cronfeydd cyfun	Nid oes gan y mwyafrif o ranbarthau gytundeb rhannu risg ariannol. Nid oedd pump o'r saith BPRh yn cyfuno cronfeydd yn gorfforol. Cododd pob rhanbarth fater croes gymorthdal i'w poblogaeth fel her a'r gwahaniaeth mewn anghenion rhwng ardaloedd ar gyfer carfan fawr o'r boblogaeth.	Er mwyn datblygu dull rhannu risg BPRh ymhellach, gallent ystyried: – Cyfuno cronfeydd yn gorfforol, yn unol â bwriad y ddeddfwriaeth. – Datblygu strwythur rhannu risg, y mae'r holl bartneriaid yn ymrwymo iddo yn ysgrifenedig. – Cofnodi ac olrhain risgiau, gyda mesurau lliniaru a nodwyd ac y mae'n bosibl eu gweithredu wedi'u rhestru ochr yn ochr â nhw. – Defnyddio pecyn cymorth ADSS Cymru wrth weithredu eu prosiectau cronfeydd cyfun, yn unol â chanllawiau LIC.

Argymhellion i'w hystyried

Argymhellion i'w hystyried			
Rhif	Maes	Arsylwadau	Argymhellion i'w hystyried
8	Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun	Mae canlyniadau cronfeydd cyfun yn gyfyngedig ar yr adeg hon o'u haeddfedrwydd. Mae'r mwyafrif o BPRh yn y cam rhannu data yn hytrach na gweithredu newidiadau mewn ffordd integredig trwy ddefnyddio eu cronfeydd cyfun.	Er mwyn gwella dealltwriaeth o ganlyniadau cronfeydd cyfun, gallai BPRh ystyried: – Dadansoddi buddion cyllid cyfun yn erbyn gwariant sefydliadau unigol. – Diffinio DPA i fesur llwyddiant y 'cronfeydd' dros amser.
9	Datblygiadau yn y Dyfodol	Mae'r rhan fwyaf o ranbarthau wedi dechrau ystyried eu strategaeth tymor hwy ar gyfer y cronfeydd cyfun rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n lefel uchel ac yn dal i fod yn y cam trafod a heb fap ffordd yn achos y mwyafrif o BPRh.	Mae'r cyfleoedd datblygu i'w hystyried yn y dyfodol yn cynnwys: – Dogfennu a chyhoeddi dyheadau BPRh yn y dyfodol. – Datblygu cynlluniau manwl sy'n alinio â'r uchelgais y cytunwyd arni. – Gwerthuso meysydd cronfeydd cyfun rhanbarthol a lleol yn y dyfodol i helpu i gyflawni'r agenda newid.

Asesiad Cryno

Mae'r asesiad isod ac ar dudalen nesaf yr adroddiad, yn darparu asesiad cryno ar draws y BPRh. Mae'n amlinellu'r sgoriau'r saith BPRh ar draws y meysydd allweddol yr oedd yr adolygiad yn canolbwyntio arnynt.

Lefel Aeddfedrwydd: 1 – Isel 5 - Uchel



Pwrrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Y prif reswm am y sgôr is yw nad oedd y rhanbarthau wedi mynegi'r pwrrpas a'r cwmpas cystal â'r rhanbarthau eraill, yn y cytundebau A33 ac yn y cyfweiliadau.

Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Sgoriodd mwyafrif y rhanbarthau yn weddol dda yn erbyn y meini prawf llywodraethu ac roeddent o ystod debyg. Mae rôl Rheolwr y Cronfeydd Cyfun ar waith gyda sawl BPRh ac mae'n ffactor wrth yrru nodau'r gronfa yn eu blaen a'u cyflawni. O'r BPRh a arolygwyd, nid oes gan Gaerdydd a'r Fro a Gorllewin Cymru reolwyr cronfeydd cyfun.

Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r gronfa



Mae bwlch rhwng Gorllewin Cymru a Chaerdydd o'i gymharu â'r BPRh eraill sydd ar frig y raddfa aeddfedrwydd. Mae hyn oherwydd diffyg eglurder yn y cytundeb ysgrifenedig mewn perthynas â sut y bydd y cronfeydd cyfun yn cael eu gwario a'u rheoli, a dyma beth arweiniodd at sgôr is. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o ranbarthau wedi cytuno i reoli eu cyllidebau eu hunain ac adrodd ar wariant

Sut y rhennir risg y cronfeydd cyfun



Fel grŵp ar y cyd, dyma'r maes allweddol lle sgoriodd y BPRh isaf. Mae hyn oherwydd penderfyniad ymwybodol y BPRh i reoli eu cyllidebau eu hunain a phheidio â rhannu risg. Nid yw pump o'r saith BPRh yn cyfuno eu cronfeydd yn gorfforol.

Allwedd



Caerdydd a'r Fro



Cwm Taf Morgannwg



Gwent



Gogledd Cymru



Powys



Gorllewin Morgannwg



Gorllewin Cymru

Asesiad Cryno

Lefel Aeddfedrwydd: 1 – Isel 5 - Uchel



Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfunol



Roedd gan y mwyafrif o ranbarthau sgoriau isel gan nad yw'r cronfeydd cyfun hyn yn aeddfed yn weithredol ac mae rhanbarthau yn dal i reoli eu cyllidebau ar wahân. Gallai meysydd ffocws gynnwys tryloywder gweithgaredd a gwariant a gwneud penderfyniadau ar y cyd yn rhanbarthol.

Datblygiadau yn y Dyfodol



Mae'r rhan fwyaf o BPRh yn canolbwyntio ar alinio cyllid â'u strategaeth hirdymor ac adeiladu ar y gwaith ar y cyd a gwblhawyd hyd yma. Mae Caerdydd a Powys wedi dechrau datblygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer cyllidebau cyfun tra bod Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar y rhaglen is-ardaloedd.

Cydweithio



Mae gan y mwyafrif o ranbarthau sgoriau canolig ar gyfer cydweithio gan fod mwy o weithio mewn partneriaeth yn digwydd wrth i fwy o ddata gael ei rannu. Mae trafodaethau hefyd yn digwydd ar lefel ranbarthol ar heriau a phroblemau yn ogystal â gwaith ar y cyd mewn meysydd penodol, er enghraifft, methodoleg ffioedd a strategaeth gomisiynu. Fodd bynnag, nid yw BPRh yn gweithio i'w lefel orau hyd yma. Hefyd i nodi bod Gorllewin Cymru yn defnyddio porth i helpu i yrru rhywfaint o'u cydweithio.

Allwedd



Adolygiad o
gronfeydd cyfun yn
ö! rhanbarth

Caerdydd a'r
Fro

Trosolwg



- Mae gofyniad statudol ar Gyrrff Partneriaeth i sefydlu a chynnal cronfa gyfun mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau llety cartrefi gofal.
- Daeth y gofyniad statudol hwn i rym ar 6 Ebrill 2018.
- At ddibenion y Cytundeb hwn, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd wedi cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Lletyol ar ei ran ei hun, Cyngor Bro Morgannwg a'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Partneriaid wedi trafod integreiddio eu rhwymedigaethau statudol a'u pwerau disgresiwn yn well mewn perthynas â'u swyddogaethau llety cartrefi gofal ac maent am ymrwymo i'r trefniadau o dan y Cytundeb hwn.

Aelodau allweddol y BPRh



- Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd
- Cyngor Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Swyddogion cysylltiedig



- Y Cynghorydd Susan Elsmore - Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Caerdydd
- Lance Carver - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg
- Sarah McGill - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Pobl a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Abi Harris - Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro
- Cath Doman - Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro
- Alison Law – Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro


Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	— Nododd aelodau o'r BPRh eu bod wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i oresgyn unrhyw rwystrau i wasanaethu preswylwyr mewn perthynas â'u hanghenion gofal ledled Caerdydd a'r Fro. — Nododd yr BPRh fod ganddyn nhw agenda gyffredin ar gyfer comisiynu a model gofal y maent yn gweithio tuag ato. Hyd yn hyn, maent wedi dod â threfniadau gosod ffioedd ynghyd, wedi datblygu un broses uwchgyfeirio, fframwaith cydraddoldeb, wedi sefydlu bwrdd comisiynu rhanbarthol ac wedi datblygu strategaeth gomisiynu anableddau dysgu. — Amlinellodd y BPRh mai'r broses y maent yn ei dilyn ar lefel Macro yw: – Cytuno ar y model gwasanaeth a'r amcanion ar gyfer y rhanbarth sy'n cyd-fynd â'r asesiad anghenion. Mae'r asesiad anghenion wedi nodi bod pobl eisiau cadw'n iach ac yn iawn yn eu cartref eu hunain cyhyd ag y bo modd. – Edrychwch ar y gwariant cyfredol – Alinio gweithgaredd ac adnoddau – Penderfynu ar y dull gorau o gefnogi a galluogi newid (trefniadau rheoli ar y cyd/cyfuno cyllidebau ac ati) — Nododd yr BPRh fod y trefniant cyllidebau cyfun yn offeryn a oedd yn gwasanaethu'r BPRh. Felly roedd y BPRh eisiau sicrhau bod y ffocws ar ganlyniadau.	– Gan fod y BPRh yn awyddus i ganolbwyntio ar ganlyniadau fel mecanwaith ar gyfer symud ymlaen, gallai fod yn ddefnyddiol iddynt nodi a dogfennu cerrig milltir allweddol y cytunwyd arnynt sy'n cyd-fynd â chyflawni eu canlyniadau strategol.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Partneriaeth Terfynol – (1.2) Sylw yn y Ddogfen Ddata – (1.5) NODIADAU o Weithdy Cyllidebau Cyfun Caerdydd a'r Fro Dydd Mercher 8 Mawrth 2017	— Mae'r Cytundeb Partneriaeth Terfynol craidd (1.1) wedi'i sefydlu gan ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y sylw ar gyfer (1.2) yw na ddefnyddiwyd cytundeb Adran 33 ar gyfer y gronfa gyfun hon. — Mae'r ddogfen graidd (1.1) yn rhoi trosolwg o'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n cael ei dilyn.	


Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	— Mae gan y BPRh strwythur llywodraethu y mae'r trefniadau cyfun ar gyfer cartrefi gofal yn bwydo iddo. — Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gronfa gyfun. Mae trefniadau ar waith i rannu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r gronfa ar y cyd. — Mae swyddog cyllid Cyngor Caerdydd yn darparu diweddariad chwarterol ar wariant. Mae swyddogion cyllid Bro Morgannwg ac Iechyd yn darparu cadarnhad a sicrwydd ar ran eu sefydliad. — Darperir adroddiadau ar gyfer yr BPRh a chyrrff llywodraethu sefydliadau partner gan y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol sy'n coladu'r wybodaeth hon.	Wrth i'r BPRh gynyddu ei aeddfedrwydd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, gallai: — ystyried y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer cwestiynu penderfyniadau gwariant.
Adolygiad pen desg — (1.1) Cytundeb Partneriaeth Terfynol — (1.4) Rhaglen Gomisïynu Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn a Diweddariad Cyllidebau Cyfun Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - 9 Mehefin 2017 — (1.5) Gweithdy Cyllidebau Cyfun Caerdydd a'r Fro	— Fel rhan o ddogfen graidd y Cytundeb Partneriaeth (1.1), mae adran ar gyfer "Llywodraethu Rheoli Partneriaeth", sy'n esbonio y bydd gofynion cyfreithiol yn cael eu dilyn. Mae hefyd yn nodi y bydd adolygiad chwarterol yn cael ei gynnal a phwy fydd yn ei dderbyn.	— ystyried dynodi rheolwr cronfeydd cyfun i helpu i yrru datblygiadau ymlaen a sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Gallai fod yn ddefnyddiol myfyrio ar sut mae'r BPRh eraill yn defnyddio'r rôl hon.


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	— Nododd yr BPRh fod yna bolisiau sy'n nodi pa bartner ddylai ariannu pecynnau gofal. Mae'r BPRh wedi ceisio gwella a chyflymu prosesau gwneud penderfyniadau. — Dywedodd un aelod o'r BPRh pe bai Gofal Cymdeithasol am ddim wrth y pwynt mynediad, byddai hyn o gymorth sylweddol i'r broses benderfynu. — Dros amser, y bwriad yw cefnogi mwy a mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, felly gobeithir y bydd llai o leoliadau gofal preswyl yn cael eu comisiynu dros amser.	— Gallai'r BPRh ystyried dulliau cymeradwyo cyllid.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Partneriaeth Terfynol	— Yn ôl y Cytundeb Partneriaeth Terfynol (1.1), gall cyfranwyr dalu i mewn ac allan o'r gronfa gyfun yn unol ag Atodlen 1. Mae Atodlen 1 ei hun yn egluro y bydd Cyfraniad Ariannol pob Partner yn cael ei gyfrif gan y Partner unigol gan gyfeirio at y costau gwirioneddol. Mae'r Partner wedi ysgwyddo mewn perthynas â'r Gwasanaethau a gomisiynwyd. — Mae'n egluro ymhellach y bydd gweithrediad y gronfa gyfun yn ad-daliad o wariant gan yr awdurdod lletyol (ar ôl casglu cyfraniadau) yn ôl i'r cyfranwyr yn seiliedig ar eu gwariant unigol.	

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	— Nododd rhai aelodau o'r BPRh nad oes awydd i rannu risg mewn perthynas â chyfuno cyllid ar gyfer llety cartrefi gofal. Nid oes cyfuno arian yn gorfforol ar draws partneriaid. — Oherwydd amllder cyfarfodydd a sgysiau ledled y rhanbarth, mae'r BPRh bellach yn gallu rhannu'r risg o reoli'r sector yn llawer gwell.	— Gallai'r BPRh ailedrych ar benderfyniad y Gweithgor Arweinwyr, 27 Mehefin 2017, i ddarganfod a allai cytundeb rhannu risg rhwng cyfranwyr i'r gronfa ddod â buddion ychwanegol i'r bartneriaeth.
Adolygiad pen desg – (1.5) Gweithgor Arweinwyr Cyllid Cyllidebau Cyfun, 27 Mehefin 2017.	— Yn y Gweithgor Arweinwyr Cyllid Cyllidebau Cyfun, 27 Mehefin 2017 dogfen (1.5), trafododd y grŵp a oedd angen strwythur rhannu risg, gan benderfynu hyrwyddo'r canlyniad canlynol, sef “dim trefniadau rhannu risg”.	— Ystyried sut y gellid nodi risgiau o flaen amser, eu cofnodi a chytuno ar fesurau lliniaru. — Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig — Ystyried cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwyydd.


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	Cafwyd nifer o ganlyniadau cychwynnol o ganlyniad i gydweithio ar draws y BPRh ond nid yw manteision diriaethol defnyddio cronfa gyfun wedi'u gwireddu eto. – Tryloywder – Bellach mae gan y BPRh broffil gwariant clir y gallant ei fapio ar draws y rhanbarth. Gallant nodi unrhyw newidiadau i batrwm y galw. – Comisiynu – Wedi sefydlu bwrdd comisiynu rhanbarthol. Mae'r newidiadau yn y galw yn helpu i lywio penderfyniadau comisiynu. Bellach mae ganddyn nhw broses gynllunio ar sail tystiolaeth. – Cydweithio – mae aliniad agosach wedi dynodi bwriad clir i'r farchnad y bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd. Mae uwch arweinwyr hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn mynychu cyfarfodydd bwrdd ac UDRh ei gilydd sy'n galluogi hyblygrwydd a chreadigrwydd ychwanegol yn y system. Er enghraifft, nid yw'r gwasanaeth prydau ar glud bellach wedi'i gyfyngu i ffiniau'r cyngor. – Wedi dwyn trefniadau gosod ffioedd ynghyd – Mae'r pecyn cymorth 'Let's Agree to Agree' wedi'i weithredu i ddatblygu dysgu rhanbarthol. – Strategaeth Comisiynu Anableddau Dysgu - bydd yn cael ei gweithredu erbyn mis Mawrth 2020 i gefnogi pobl ag anableddau dysgu ac i fod yn fwy annibynnol – Proses Uwchgyfeirio Pryderon - un dull ar draws y BPRh – Fframwaith Cydraddoldeb	— Ystyried datblygu mesurau i olrhain a yw'r gronfa'n cyflawni ei nodau. — Ailedrych ar y trefniadau cyfuno cyllidebau. Efallai y bydd pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yn helpu i symud pethau ymlaen.
Adolygiad pen desg – (1.3) Comisiynu DomRes	O'r dogfennau perfformiad a ddarparwyd (DomRes (1.3), gellir gweld bod cynnydd da ar 3 Medi 2019. Mae mwyafrif y nodau ar y trywydd iawn gyda nifer fach y tu ôl i'r amserlen neu'n wynebu heriau wrth gyflawni.	

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	Nododd aelodau o'r BPRh eu bod am gynnal ffocws ar ganlyniadau ar draws y rhanbarth. Mae cynllun gwaith y BPRh i'r dyfodol yn cynnwys y mentrau a ganlyn: – Dywedodd yr BPRh eu bod yn gweithio gyda phob partner i gefnogi gweithredu cynlluniau strategol a nodi cyfleoedd trawsbynciol. Er enghraifft, cynhaliwyd un asesiad rhanbarthol o Dai a Llety Pobl Hŷn ar ran yr BPRh. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio i fwydo i strategaethau tai ar wahân yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae Cyngor Caerdydd newydd ryddhau ei 'Strategaeth Tai Pobl Hŷn' sy'n nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn llunio ac yn darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau, a sut y gall y ddarpariaeth hon helpu i fynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. – Comisiynu - Mae'r ddau gyngor mewn gwahanol leoedd mewn perthynas â chomisiynu, ond dywedon nhw eu bod yn gweithio ar ddod â'r rhain at ei gilydd. Mae hwn yn nod tymor hwy. – Atal – nododd y BPRh eu bod am edrych ar benderfyniadau lles a gweithio ehangach gydag ystod o sefydliadau partner ar draws y BPRh a'r BGC. – Dull Iechyd y Boblogaeth – mae'r BPRh ar hyn o bryd yn edrych ar y model y maent wedi'i fabwysiadu ar gyfer iechyd y boblogaeth a sut y gallant ei wella i sicrhau ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar lefel ardal. Ym mis Hydref, cyfarfu'r bwrdd comisiynu Rhanbarthol a thrafod pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ADSS). Mae'r nodyn gweithredu yn nodi "<i>Mae Pecyn Cymorth ADSS Cymru i'w ddefnyddio fel dogfen gyfeirio - i sefydlu cyfarfodydd i edrych ble y gall buddion Cytundebau Cyfun fod a lle y gallai fod angen cytundebau ffurfiol. Mae angen cytundeb 50/50. Mae rheoliadau yn cyfarwyddo'r rhanbarth i ganolbwyntio ar Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig.</i>"	— Gallai'r BPRh feddwl am sut y gallant ddatblygu ffyrdd i ymestyn mentrau ledled y rhanbarth.
Adolygiad pen desg – (1.3) Comisiynu DomRes Chwarter 1 – (1.5) Cofnodion Cyfarfodydd, dogfennau amrywiol	— O gofnodion y cyfarfodydd (1.5), gellir gweld bod cofnodion rheolaidd yn cynnwys trafodaeth ynghylch y cronfeydd cyfun. — O'r data perfformiad (1.3), mae yna lefel o fanylion wrth adolygu'r gwahanol feysydd y mae'r gronfa'n eu cefnogi. — Gellir gweld hefyd o gofnodion y cyfarfod (1.5) bod camau'n cael eu cynllunio, gyda pherchnogaeth yn cael ei rhoi i unigolion.	

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 17 Rhagfyr 2019	— Nododd yr BPRh fod trefniadau partneriaeth da ar draws yr BPRh. Roeddent yn teimlo bod y trefniadau partneriaeth cryf yn aml wedi negyddu'r angen i weithredu prosesau mwy ffurfiol.	— Parhau â'ch dadansoddiad o'r ADSS a'i ddefnyddio i gyflwyno a strwythuro mentrau BPRh yn y dyfodol
Adolygiad pen desg — (1.1) Cytundeb Partneriaeth Terfynol — (1.3) DomRes Comisiynu	— Comisiynu – Roedd y dogfennau perfformiad a ddarparwyd (DomRes (1.3) yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud.	

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Y meysydd allweddol lle gallai Caerdydd a'r Fro ddatblygu eu haeddfedrwydd yw mewn perthynas â phenderfyniadau, rhannu risg a chanlyniadau cychwynnol y gronfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol.

Felly, efallai y bydd y BPRh yn ystyried gweithio trwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol. Byddai hyn yn datblygu aeddfedrwydd yn y meysydd hyn.



Cwm Taf
Morgannwg

Trosolwg



Mae gan y gronfa gyfun llety cartrefi gofal yr amcanion canlynol:


- Deall ac ymateb i anghenion eang y boblogaeth yng Ngwm Taf Morgannwg am lety cartrefi gofal.
- Sicrhau ystod briodol o wasanaethau llety i ddiwallu anghenion pobl fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa'r Farchnad 2017.
- Cynnal marchnad llety cartrefi gofal sefydlog a chynaliadwy yng Nghwm Taf Morgannwg a chydlynu ymdrech ar draws i gefnogi datblygiad modelau gwasanaeth newydd.
- Gwellu ansawdd llety cartrefi gofal yn y rhanbarth trwy reoli manyleb a threfniadau monitro contract y contract Cartref Gofal Rhanbarthol.
- Mabwysiadu defnydd mwy tryloyw o adnoddau ar draws y Bartneriaeth a gwella prosesau gwneud penderfyniadau strategol Bwrdd Partneriaeth Cwm Taf Morgannwg.
- Cynnal dull a methodoleg gyson ar gyfer gosod ffioedd yn seiliedig ar ffactorau lleol.

Aelodau allweddol y BPRh



- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont

Swyddogion cysylltiedig



- Neil Elliott (Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT)
- Neil Griffiths (Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT)
- Sarah Mills (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)


Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	— Nododd yr BPRh eu bod wedi gwneud llawer o ymdrech i egluro'r cwmpas, yn enwedig mewn perthynas â pha garfannau o unigolion yr oedd y gronfa gyfun yn berthnasol iddynt. — Mae BPRh Cwm Taf Morgannwg yn y broses o integreiddio Pen-y-bont i'w cyllideb gyfun. Mae Pen-y-bont wedi bod yn cysgodi'r BPRh a bydd wedi'i integreiddio'n llawn erbyn 2020. — Nododd yr BPRh y byddant yn gwneud penderfyniadau ar eu huchelgais a'u camau nesaf unwaith y bydd Pen-y-bont wedi ymuno â'r gronfa gyfun. Hyd yma mae nod y BPRh wedi canolbwyntio ar sefydlu'r gronfa. — Dywedodd aelodau'r BPRh eu bod yn awyddus i sicrhau bod mentrau'r BPRh yn cyd-fynd â'u rhaglen drawsnewid.	— Wrth i'r gronfa gyfun ddatblygu, gallai'r BPRh ystyried sefydlu DPA i fesur cynnydd yn erbyn y nodau a'r amcanion.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb A33	— Mae Atodlen 1 Cytundeb A33 yn darparu nodau ac amcanion ar gyfer y cronfeydd cyfun.	


Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	— Roedd yr BPRh yn glir eu bod am geisio mynd cyn belled ag y gallent gyda'u cyllideb gyfun. — Nododd y BPRh fod y gyllideb yn cael ei chytuno ymhlith partneriaid. Telir cyllid i'r gronfa bob chwarter ymlaen llaw. Dywedodd aelodau'r BPRh fod yn rhaid iddynt oresgyn problemau yn ymwneud â llif arian, yn enwedig ar gyfer y cynghorau llai, ond maent wedi gweithio allan ffordd i oresgyn hyn. Mae'r holl lif arian yn mynd trwy'r llyfrau, sy'n rhoi rhestr drafodion eglur o'r hyn sydd wedi'i dalu. — Dywedodd yr BPRh fod cyfrifoldeb am gomisiynu a thalu cartrefi yn cael ei ddirprwyo yn ôl i'r awdurdod prynu lleol. — Mae Pennaeth yr Uned Gomisiynu Ranbarthol yn ymgymryd â rôl rheolwr y gronfa gyfun.	- Dim argymhellion arwyddocaol
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb A33 – (1.2) Dogfennau Cefnogi ar gyfer y tîm adolygu 19.08.19 – (1.2) Crynodeb Diwedd Blwyddyn o'r Gwariant Gwirioneddol	— Mae'r cytundeb Adran 33 a ddarperir yn cynnwys Atodlen 3: Protocol Ariannol, sy'n amlinellu gweithdrefnau llywodraethu craidd. Mae'n diffinio rolau'r rhai sy'n cymryd rhan, gan gynnwys nodi y bydd comisiynwyr gwasanaeth arweiniol yn gyfrifol am daliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau perthnasol. Rhoddir amodau manwl pellach, gan ymestyn cyn belled ag ansolfedd sefydliadol. — Mae yna drefniadau archwilio allanol a mewnol, gydag archwilywyr perthnasol wedi'u henwi. — Mae'r ddogfen PDF "Dogfennau Cefnogi ar gyfer y tîm adolygu 19.08.19" (1.2) a ddarperir yn dangos manylion y ffigurau ariannol sy'n cael eu cymeradwyo. — Mae'r ddogfen Excel "Crynodeb Diwedd Blwyddyn o'r Gwariant Gwirioneddol" (1.2) yn rhoi golwg a rheswm lle mae amrywiannau'n cael eu canfod.	


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb A33 – (1.5) Cofnodion Drafft, ffeiliau amrywiol – (1.6) Dyddiadau BPRh	— Mae partner arweiniol yn rôl ofynnol, fel yr amlinellir yn nogfen graidd cytundeb A33 (1.1). Mae'r unigolyn hwn yn rheoli gwariant yn agos, er mwyn sicrhau bod cronfeydd yn mynd tuag at feysydd priodol sy'n berthnasol i nodau'r cronfeydd cyfun. — Mae “Cofnodion Drafft” (1.5), yn dangos y gellir trafod penderfyniadau ar draws partneriaid er mwyn dod i gytundeb unfrydol. Mae BPRh pellach ar y gweill, gan sicrhau bod y dull hwn yn parhau (1.6).	— Dim argymhellion arwyddocaol.

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	— Nid yw'r cytundeb cronfeydd cyfun yn gwahardd nac yn cyfyngu ar rannu risg ariannol. — Gan fod y gronfa gyfun yn dal yn ei dyddiau cynnar, mae'r BPRh wedi penderfynu datblygu'r gronfa fesul cam. Maent wedi sefydlu'r gronfa ac yn gweithio ar integreiddio Pen-y-bont i'r gronfa. Yn 2020, bydd y BPRh yn edrych ar opsiynau ac yn datblygu'r nodau penodol. Yr agenda gomisiynu yw'r flaenoriaeth fwyaf i'r BPRh. Byddant yn edrych ar ddatblygu eu strwythurau rhannu risg wrth i'r gronfa gyfun ddatblygu. — Nododd y sefydliadau yn y BPRh eu bod wedi arfer datblygu mentrau ar y cyd a rhannu risg.	Unwaith y bydd CBS Pen-y-bont wedi'i integreiddio'n llawn i'r gronfa, gallai'r BPRh ystyried – Datblygu strwythur rhannu risg. – Ystyried sut mae risgiau'n cael eu cofnodi a'u holrhain, a mesurau lliniaru yn cael eu cynllunio a'u gweithredu – Cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb A33 – (1.5) Cartrefi Gofal Drafft Llety	— Er nad oes unrhyw strwythurau rhannu risg llym wedi'u hamlinellu, mae dogfen Cytundeb Adran 33 (1.1) yn manylu ar drefniadau datrys anghydfod rhwng partneriaid. Er nad yw'n ymwneud yn llwyr â risg, mae'n tynnu sylw at ddulliau datrys. — Mae Rhan 23 (Rhwymedigaethau) y Cytundeb Adran 33, yn amlinellu “Bydd gan bob parti eu costau a'u treuliau eu hunain wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn”.	


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	Mae'r BPRh wedi canolbwyntio ar sefydlu eu cronfa gyfun dros y 18 mis diwethaf. Cafwyd nifer o ganlyniadau cychwynnol gan gynnwys: – Gwybodaeth ariannol ranbarthol a ddefnyddiwyd i lywio penderfyniadau comisiynu – Prosesau ffurfiol i rannu gwybodaeth – Mecanwaith cyfreithiol ar gyfer trosglwyddiad (yn amodol ar swyddogion S151 yn cymeradwyo) sy'n caniatáu i unrhyw wargedion gael eu cymryd drosodd – Cyfathrebu a chyswllt rheolaidd â phartneriaid – Datganiad o sefyllfa'r farchnad – Contract y cytunwyd arno ar draws y rhanbarth ar gyfer RhCT/Merthyr. Maent bellach yn gweithio gyda Phen-y-bont er mwyn iddynt ymuno. – Maent wedi prynu system darganfod gwelyau i adolygu lefelau deiliadaeth a gweithredu fel broceriaeth	— Ystyried datblygu mesurau i olrhain a yw'r gronfa'n cyflawni ei nodau. — Ystyried ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	— Bydd Pen-y-bont yn ymuno â'r gronfa yn 2020 ac mae'r BPRh wedi nodi y byddant yn gwneud penderfyniadau ar eu huchelgais a'r camau nesaf unwaith y bydd Pen-y-bont wedi ymuno — Mae yna rai mentrau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd neu y maen nhw'n dyheu amdany'n nhw fel datblygu'r system darganfod gwelyau — O fewn Cwm Taf Morgannwg, cydnabyddir y cyd-ddibyniaethau rhwng y gronfa gyfun a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy'r awdurdodau lleol, y mae llawer ohonynt y tu allan i gwmpas y gronfa gyfun. Byddai hyn yn wir ac yn debyg i'r BIP ac mae'n fater ar draws pob rhanbarth	— Ystyried ailedrych ar yr uchelgais a'r nodau unwaith y bydd CBS Pen-y-bont wedi'i integreiddio'n llawn — Ystyried datblygiad DPA ac adolygu'r rhain yn rheolaidd. — Ystyried cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 23 Hydref 2019	— Nododd y BPRh fod trafodaethau rheolaidd fel BPRh, sydd wedi'u hategu â'r data, wedi helpu i sicrhau bod materion allweddol y gallai pob parti eu hwynebu yn cael eu cydnabod a'u gweld gan bawb. — Nododd aelodau'r BPRh a oedd yn rhan o'r drafodaeth eu bod yn teimlo bod ymddiriedaeth a hyder ar draws y rhanbarth. — Mae gan RCT Fforwm Darparwyr Cartrefi Gofal Rhanbarthol, y gwahoddir Merthyr a Cwm Taf Morgannwg iddo. Mae'r fforwm wedi'i sefydlu ers dros 10 mlynedd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr y farchnad. Teimlai aelodau'r BPRh y siaradwyd â hwy fod hwn yn fecanwaith defnyddiol i sicrhau deialog agored gyda'r sector.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
Adolygiad pen desg — Adran 35(1) Terfynol — (1.8) Adroddiad Drafft Chwarter 2 — (1.5) Cofnodion Drafft, holl ffeiliau	— Mae'r amrywiol gofnodion cyfarfod a ddarperir (1.5) yn dangos y broses o wneud penderfyniadau fel grŵp, tra bod y Cytundeb Adran 33 craidd (1.1) yn dangos bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer datrys anghydfodau.	

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Y maes allweddol lle gallai Cwm Taf Morgannwg ddatblygu eu haeddfedrwydd yw mewn perthynas â threfniadau rhannu risg cronfeydd cyfun. Mae'r BPRh eisoes wedi nodi y bydd hwn yn faes ffocws iddynt unwaith y bydd Pen-y-bont wedi'i integreiddio'n llawn.



Gwent

Trosolwg



- Nodau, buddion a'r canlyniadau a furiadwyd ar gyfer y Partneriaid yn BPRh Gwent oedd:
- Darparu comisiynu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Swyddogaethau Llety Cartrefi Gofal, gan adlewyrchu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn lleol, ar gyfer Pobl Hŷn yr asesir bod angen gofal o'r fath arnynt
 - Galluogi Defnyddwyr Gwasanaeth sydd ag ystod o anghenion i fyw mewn lleoliad cartref gofal priodol fel y nodir yn natganiad pwrpas y cartref
 - Cynnig darpariaeth deg i unrhyw Ddefnyddiwr Gwasanaeth
 - Sicrhau bod systemau ar waith sy'n cefnogi Defnyddwyr Gwasanaeth nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniad ynghylch eu dewis o lety/gofal i sicrhau penderfyniad budd gorau yn unol â deddf gallu meddyliol 2005
 - Datblygu system rheoli ansawdd ymhellach sy'n cynnwys datblygu'r farchnad ar gyfer Llety Cartrefi Gofal, perthnasodd darparwyr, data gweithgaredd contract, rheolaeth ariannol a fframwaith perfformiad ar gyfer gwella gwasanaethau'n barhaus gan gynnwys rheoli risg.

Aelodau allweddol y BPRh



- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Swyddogion cysylltiedig



- Phil Robson (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Nick Wood (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Dave Street (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)


Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb Adran 33 Drafft — (1.1) Manyleb gwasanaeth v7 — (1.1) Contract ar y cyd diwygiedig 2019 — (1.4) Diweddariad A33 BPRh Ionawr 2019 — (1.5) Cofnodion Grŵp Llywio 24.07.18	— Fel y nodwyd yn adran cwmpas y “Cytundeb Adran 33 Drafft”, diffinnir y pwrpas trosfwaol fel darparu gwasanaethau ar gyfer “Pobl Hŷn yn y Rhanbarth a darparu llety cartrefi gofal”. — Diffinnir meysydd ffocws, er nad yw'n rhestru'r canlyniadau pendant a ddymunir. Diffinnir y dull o sicrhau canlyniad gwell, gyda set glir o benderfyniadau. — Diffinnir cerrig milltir ar gyfer pob blwyddyn ariannol, er bod hyn fel rheol yn ymwneud â rheoli cyllid yn hytrach na chyflawni amcanion. Gellir gweld adolygiadau pellach i'r cerrig milltir yn nogfen diweddariad A33 BPRh Ionawr 2019. — Dylid nodi yn ystod y cam cynnar hwn o'r adolygiad bod dogfen Cofnodion 24.07.18 y Grŵp Llywio yn ei gwneud yn glir bod y cytundeb wedi'i adolygu gan nifer o gyfreithwyr.	— Ystyried diffinio buddion pendant i'w disgwyl ar gyfer y meysydd ffocws, y gellir eu mesur trwy ddefnyddio DPA. — Ystyried sut mae'r BPRh yn blaenoriaethu ei nodau rhestredig i sicrhau bod arian yn cael ei wario ar feysydd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol.


Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb Adran 33 Drafft — Cyfarfod 13 Medi 2019	— Fel rhan o'r prif "Gytundeb Adran 33", disgrifir trefniadau archwilio gyda chyfrifoldeb ar yr archwilwyr allanol ar gyfer y sefydliad lletyol. Bydd archwiliad mewnol yn cael ei gyflawni gan broses asesu risg y sefydliad lletyol ac archwilwyr mewnol y partneriaid. — Bydd gweinyddiaeth gyffredinol y gronfa gyfun o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb Rheolwr y Gronfa Gyfun, gyda nodau penodol o sicrhau bod y gronfa "yn cael ei chynnal i safonau cenedlaethol a phroffesiynol a bod talu anfonebau yn cydymffurfio â'u Rheolau Sefydlog, gan sicrhau nad yw'r gronfa'n talu unrhyw ffioedd talu'n hwyr." — Y tu hwnt i hyn, mae proses ysgrifenedig ar gyfer talu cyfraniadau, y lefel sy'n ofynnol gan gyfrannwr, trefniadau rhannu risg, a mwy. — Wrth drafod â rhanddeiliaid allweddol, nodwyd bod pob un o'r sefydliadau'n rheoli eu cyfraniadau eu hunain ac adroddwyd ar hynny'n rheolaidd gyda diweddariadau chwarterol i'r BPRh.	— Dim argymhellion i'w arwyddocaol.


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb Adran 33 Drafft — (1.4) Holl Gofnodion BPRh — (1.4) Cofnodion BPRh 24 Ionawr 2019	— Fel rhan o'r prif "Gytundeb Adran 33", amlinellir gwneud penderfyniadau ar wahanol lefelau, gan gynnwys y partneriaid cyffredinol sy'n cytuno yn y Grŵp Arweinyddiaeth ar y gweithdrefnau a'r trefniadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn. Wrth drafod, nodwyd bod Rheolwr y Gronfa Gyfun yn delio â gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, gan adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth. Ariennir rôl rheolwr y gronfa gyfun trwy gymysgedd o gyfraniadau gan bartneriaid a thîm trawsnewid y Bartneriaeth Ranbarthol. — Gellir gweld trafodaeth ynghylch cynnydd cyffredinol trefniadau'r gronfa gyfun trwy gofnodion cyfarfodydd y BPRh. Mae'n werth nodi yn benodol cofnodion 24 Ionawr 2019, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y trefniant cyllido cyfun yn heriol. — Ochr yn ochr â hyn, cynhyrchir gweithredoedd yn sgil trafodaeth a chytundeb ar y cyd fel rhan o'r BPRh ehangach. — At ei gilydd, mae trefniant llym ar gyfer gwneud penderfyniadau a bod gan y partner lletyol reolaeth dros wariant cyllid yn unol â'r Grŵp Arweinyddiaeth ehangach. — Wrth drafod gyda'r BPRh, nodwyd bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chyfraniadau pob sefydliad yn gorwedd gyda'r sefydliadau unigol. Trafodir egwyddorion ar lefel BPRh ar sut y dylid symud ymlaen a gweithredu'r cronfeydd cyfun yn y rhanbarth. — Roedd barn ymhlith rhanddeiliaid, gan nad oedd yr BPRh yn endid cyfreithiol, bod cyfyngiad ar allu'r fforwm i wneud penderfyniadau.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
— Cyfarfod 13 Medi 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb Adran 33 Drafft	— Fel rhan o'r "Cytundeb Adran 33", mae yna adrannau sy'n ymwneud yn benodol â rhannu risg. Mae'r brif adran yn tynnu sylw at yr adrannau ehangach penodol ar orwario a thanwario. Disgrifir gweithredoedd yn glir ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd yn y naill achos neu'r llall, a'r prif allbwn (ar gyfer gorwariant) fyddai llunio adroddiad i'w ystyried gan Bartneriaid ar sut i drin y gorwariant. Yn yr un modd, ar gyfer tanwariant, mae yna amrywiaeth o gamau i'w cymryd yn achos gwahanol sefyllfaoedd. — Er nad yw'r brif ddogfen yn disgrifio cofrestr risg, mae'n disgwyl i risgiau gael eu cofnodi a'u hadrodd ar y cyfle cyntaf. — Fodd bynnag, dylid nodi, mae gan y ddogfen hon adran lawer diweddarach sy'n nodi'n benodol "Bydd y [Cytundeb Adran 33] hwn yn 'rhannu di-risg' er mwyn sicrhau nad oes croesgymorthdalw rhwng Partneriaid." Wrth drafod â rhanddeiliaid allweddol, nodwyd bod pob un o'r sefydliadau yn rheoli eu cyfraniadau eu hunain ac felly nad oedd risgiau ariannol a gweithredol yn cael eu rhannu ar draws sefydliadau.	— Er mwyn cefnogi datblygiad rhannu risg ymhellach ar gyfer yr BPRh, gallent ystyried: — Datblygu cofrestr risg, sy'n cael ei chynnal yn weithredol a sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi a'u holrhain, a bod mesurau lliniaru'n cael eu cynllunio.
— Cyfarfod 13 Medi 2019	— Yn ystod y drafodaeth, roedd rhanddeiliaid allweddol yn teimlo ei bod yn fwy o her integreiddio cyllidebau presennol oherwydd croesgymorthdalw rhwng cynghorau. A'u barn hwy oedd y gallai hefyd effeithio ar gyflymder yr ymateb i anghenion newidiol poblogaeth y dalgylch ymhob cyngor gan na fyddai cymaint o hyblygrwydd rhwng cyllidebau o fewn y cyngor.	— Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cofnodion — (1.4) BPRh Mawrth 2019 Cofnodion — (1.4) BPRh Mai 2019 — (1.10) Cynllun Rhaglen RCG 23.05.19 — Cyfarfod 13 Medi 2019	— Yn ôl cofnodion BPRh Mawrth 2019, mae'r gronfa gyfun wedi bod yn gymhleth i'w chyflwyno ac mae llawer o gwestiynau'n parhau ynghylch ei gweithredu'n llawn, a oedd wedi ei hatal rhag cael ei chymeradwyo'n llawn. Fodd bynnag, mae'r gymeradwyaeth hon yn cael ei chadarnhau yng nghofnodion BPRh Mai 2019. — Ymhellach, gellir gweld cynnydd cyffredinol yn cael ei olrhain fel rhan o ddogfen Cynllun Rhaglen RCG 23.05.19. At ei gilydd, mae'r cynnydd yn oren, er bod y tasgau penodol ar lefel uchel iawn. — Mae diffyg tystiolaeth ar y gwir lefelau gwariant ar gyfer cytundeb A33 BPRh Gwent. O ganlyniad, bu'n anodd asesu cywirdeb gwariant neu asesu a gafwyd budd. — Wrth drafod gyda'r rhanddeiliaid allweddol, cydnabuwyd pwysigrwydd defnyddio meini prawf canlyniadau i lywio darpariaeth effeithiol a byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y strategaeth gomisiynu. — Mae'r BPRh wedi nodi ymwybyddiaeth o becyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a'i fod wedi dylanwadu ar feddwl ond nid oes tystiolaeth ddigonol i bennu maint y dylanwad.	— Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh olrhain a dadansoddi lefelau gwariant i sicrhau eu bod yn sicrhau budd. — Gallai'r BPRh ddadansoddi a fyddai modd ennill buddion o weithredu dull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol. — Ystyried cymhwysu pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd


Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.3) 18/19 BPRh Ch3– Arweinyddiaeth Gwent. — (1.4) Cofnodion BPRh 24 Ionawr — (1.4) Cofnodion BPRh 14 Mawrth	— Yn seiliedig ar adroddiad rhagolwg alldro Ch3 - dogfen Arweinyddiaeth Gwent (1.3), mae'n amlwg bod adolygiadau rheolaidd (chwarterol) ar waith i asesu a ragwelir gor-wariant neu danwariant. Mae hyn yn edrych ar y gwariant a ragwelir a'r cyfraniadau. Amlygir amrywiant, gyda'r rhesymau yn cael eu harchwilio mewn adran bwrpasol "Amrywiadau". — Mae yna adran camau gweithredu yn yr adroddiad hwn ond mae ei ddefnydd yn gyfyngedig yn yr adroddiad a ddarperir, gan nodi dim ond y bydd rhagolwg Chwarter 3 yn cael ei ddarparu i'r BPRh. — Wrth drafod, gyda'r rhanddeiliaid, nodwyd bod bwriad i gomisiynu rhai cydrannau o'r gwasanaeth ar y cyd ac y byddant yn digwydd trwy'r strategaeth gomisiynu. Cydnabyddir y bydd meini prawf canlyniadau ar y cyd yn fuddiol i'r rhanbarth. Roedd bwriad hefyd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar lefel ardal gan adeiladu hyd at lefel ranbarthol a allai ddefnyddio cronfeydd cyfun fel cyfrwng cyflenwi.	— Wrth ystyried datblygiadau yn y dyfodol efallai y bydd y BPRh eisiau dogfennu tystiolaeth o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â chanfyddiadau'r adroddiad chwarterol.

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.4) Cofnodion BPRh — (1.5) Cofnodion Grŵp Llywio 24.07.18 — (1.9) Methodoleg Ffioedd Rhanbarthol Gwent V4	— Mae'r sefydliadau'n cyfarfod yn rheolaidd trwy BPRh a chyfarfodydd grwpiau llywio, fel y gwelir trwy'r gwahanol gofnodion a ddarperir. Mae dull y gronfa gyfun ar waith yn llawn, er bod cynnydd i gymeradwyo wedi bod yn araf (fel y gwelir yn nogfen Cofnodion 24.07.18 y Grŵp Llywio). — Mae dogfen Methodoleg Ffioedd Rhanbarthol Gwent V4 yn cynnig mwy o fanylion ynghylch y trefniant gweithio, gan gynnwys y model "Let's Agree to Agree". Mae hefyd yn cynnwys set o egwyddorion sy'n amlinellu'r dull o ddefnyddio'r cronfeydd a gwneud penderfyniadau. — At ei gilydd, nid oes llawer o dystiolaeth i asesu a oes budd yn y dull presennol nad yw'n cyfuno arian yn gorfforol, a gellid ei archwilio ymhellach i asesu llwyddiant dull cyllido cyfun. — Wrth drafod â rhanddeiliaid, mae strategaeth gomisiynu ar y cyd yn cael ei datblygu ar gyfer Mawrth 2020. — Nododd y rhanddeiliaid fod methodoleg ffioedd cyson wedi'i chytuno a'i rhoi ar waith ledled y rhanbarth ac mae trafodaethau agored gyda darparwyr yn digwydd gyda mwy o rannu gwybodaeth ar draws y rhanbarth. — Teimlai'r rhanddeiliaid fod diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a chapasiti cartrefi preswyl ac efallai y byddai'n well defnyddio cronfeydd cyfun ar gyfer meysydd eraill. Roeddent hefyd yn teimlo bod ffrydiau cyllido eraill fel y gronfa gofal Integredig yn helpu i adeiladu dull cydweithredol ar y cyd ac y gallai dull fesul cam yn seiliedig ar ardal fod yn fwy effeithiol gan ddefnyddio cronfeydd cyfun.	— Gallai'r BPRh gynnal dadansoddiad i ddeall a ellid sicrhau budd trwy'r dull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol. — Ystyried ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd — Ystyried cymhwysio pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd
— Cyfarfod 13 Medi 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Yr ystyriaeth allweddol i BPRh Gwent yw mynd ati i gyfuno cronfeydd yn gorfforol, ynghyd â chytuno ar restr o nodau pendant mewn modd wedi'i flaenoriaethu i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir ganddynt.



Gogledd Cymru

Trosolwg



- Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016.
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaeth i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chefnogaeth effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y modd gorau.
- Mae gan BPRh Gogledd Cymru gytundeb integreiddio sy'n ymwneud â nifer o brosiectau gan gynnwys y Cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn.
- Mae'r cytundeb yn nodi'r 5 egwyddor sylfaenol a'r ymddygiadau y cytunwyd arnynt a fydd yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Aelodau allweddol y BPRh




- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion cysylltiedig



- Bethan Jones Edwards Arweinydd cydweithredu rhanbarthol
- Nicola Stubbins Cyngor Sir Ddinbych - Noddwr y rhaglen ar gyfer cronfeydd cyfun
- Steve Gadd - Arweinydd Cyllid BPRh
- Rob Nolan - Cyllid BIPBC
- Bethan Jones - Cyfarwyddwr Ardal Gofal sylfaenol BIPBC
- Heidi Roberts Cyfreithiwr ar gyfer y cynllun cydweithredol
- Lis Jones - Cyfreithiwr
- Ceri Hughes - Rheolwr y gronfa gyfun

Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb Integreiddio — (1.1) v0.10 Hydref 2019 — (1.1) Cyllido Gofalwyr — (1.1) Rhaglen drawsnewid — (1.3) Gwerthoedd y Gyllideb Gyfun	— Mae BPRh Gogledd Cymru wedi dangos bod yna gytundeb integreiddio rhwng y sefydliadau gyda sawl llofnodwr, a rhestr ddiffiniedig o brosiectau y bydd y cytundeb a'r cronfeydd cyfun yn cael eu gwario tuag atynt. — O fewn y Cytundeb Integreiddio (1.1), BPRh Gogledd Cymru, mae'r cytundeb cartrefi gofal wedi'i ddrafftio ac mae'r dyddiad cau o 16 Hydref 2019 i'w lofnodi gan bob parti. Mae'r gronfa gyfun yn cael ei hystyried yn 'rithwir' gan y partïon gyda'r bwriad bod taliadau yn cael eu gwneud i'r gronfa a'u had-dalu i bob sefydliad. — Yn y data sydd ar gael, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o bennu terfynau amser neu gerrig milltir, na thystiolaeth o ble y gwariwyd arian tuag at nod cronfa gyfun gan fod y cronfeydd i bob pwrpas yn dal i gael eu rheoli gan y sefydliadau unigol. — Mae'r daenlen Gwerthoedd y Gyllideb Gyfun (1.3) a ddarperir yn dangos tystiolaeth o'r gyllideb gyfun, ond nid yw'n nodi'n glir pa brosiectau sy'n cael eu cyfrannu atynt ac mae'n trin y cronfeydd fel gwariant unigol gan wahanol sefydliadau. — Ers yr adolygiad cychwynnol, mae'r BPRh wedi cadarnhau cytundebau partneriaeth ar wahân sy'n gorwedd yn is na'r cytundeb integreiddio ar gyfer y trefniadau cyllideb gyfun/cytundebau partneriaeth: — Y Gronfa Gofal Integredig; — Grant gofalwyr; — Cyflawni trawsnewid (6 chytundeb ALI).	— Ystyried diffinio'r cwmpas a'r buddion pendant sydd i'w disgwyl ar gyfer y prosiect cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, y gellir eu mesur trwy ddefnyddio DPA. — Ystyried sut mae'r BPRh yn blaenoriaethu ei nodau rhestredig i sicrhau bod arian yn cael ei wario ar feysydd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol. — Wrth i'r BPRh ddatblygu, gallai weithio tuag at un gronfa unedig.
— Cyfarfod 4 Hydref 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd


Lefel Aeddfedrwydd



Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb A33 — (1.12) Strwythur BPRh Diagram — Cyfweiliadau — (1.7) Pecyn Agenda Cabinet 300719	— Mae gan y Cytundeb Integreiddio cyffredinol (1.1) adran ar drefniadau llywodraethu, sy'n awgrymu bod y Bwrdd cyfan (heb unrhyw unigolion a enwir) yn gyfrifol am lywodraethu a chynnal a chadw'r cronfeydd yn effeithiol. Er bod yr adran hon ar y cyfan yn darparu syniadau da a ffydd mewn llywodraethu, nid yw'n nodi llawer o ofynion llywodraethu sy'n ymwneud ag adrodd ar wybodaeth. — Ymddengys nad oes unrhyw wybodaeth yn y data a ddarperir ynghylch sicrhau bod y wybodaeth adrodd yn gywir ac yn amserol. — Yn ôl y data perfformiad a ddychwelwyd, ceir golwg ar sut a ble mae rhanbarthau'n gwario, er nad yw hyn yn adlewyrchu dull cyllido cyfun. Ychydig o fanylion sydd yn y data a ddarperir ynghylch cymeradwyo cyllid. — O gyfweiliadau â rhanddeiliaid, nodwyd bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Sir Ddinbych) yn cadeirio'r grŵp Cyllidebau cyfun sydd â chynrychiolaeth ariannol a gweithredol o'r Byrddau Iechyd a'r 6 awdurdod lleol a chynrychiolaeth gyfreithiol o Gyngor Sir Ddinbych. Paratoir adroddiadau cyfarfodydd cabinet ar y cyd pan fydd angen penderfyniadau yn ogystal ag adroddiadau blynyddol. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn gweithio trwy'r broses o sefydlu'r gronfa gyfun o safbwynt trafodion a materion cyfreithiol.	— Gallai'r BPRh ehangu'r trefniadau llywodraethu i dynnu sylw at gamau gweithredu a pherchnogion penodol, y broses adrodd a'r broses benderfynu.
— Cyfarfod 4 Hydref 2019	— Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym fod diweddariadau llafar yn cael eu darparu yn achlysurol i'r BPRh ac mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth hyd yma wedi ymwneud â sefydlu'r gyllideb. Hefyd, darperir adroddiadau cyfarfod cabinet ar y cyd i'r sefydliadau pan fydd cynhyrchion y mae angen eu rhannu. — Gwnaethant nodi, gan nad oes gan yr BPRh bwerau gwneud penderfyniadau, bod yn rhaid i Brif Weithredwyr sefydliadau unigol wneud y penderfyniadau. Hefyd, dywedodd y grŵp wrthym fod y BPRh yn darparu fforwm ar gyfer trafodaeth a dadleuon ynghylch egwyddorion e.e. croes gymorthdal ar draws ardaloedd.	— Wrth symud ymlaen, byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh ystyried cryfhau dogfennaeth yr holl benderfyniadau llywodraethu.


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.7) Pecyn Agenda Cabinet 300719	— Rhestrir Sir Ddinbych fel y prif bartner yn yr Adroddiad Cabinet (1.7) a ddarperir o'r cronfeydd cyfun. — Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hawlio tâl gweinyddol o £20K i ariannu'r swyddogaeth cyllidebau cyfun ac mae'n gost flynyddol tra bod y gronfa'n bodoli. Cytunwyd ar y cyd gan yr holl bartneriaid i ariannu'r swydd/swyddogaeth hon ac ar hyn o bryd mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Dinbych. Dim ond Sir Ddinbych sydd wedi'i awdurdodi i wario'r tâl gweinyddol. Mae llwybr cyfryngu ar gael hefyd ar gyfer anghytundebau o fewn y partneriaid ynghylch y tâl hwn, os oes angen.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
— Cyfarfod 4 Hydref 2019	— Gan fod y cronfeydd cyfun yn rhithwir, rheolir cyfraniadau (heb eu trafod eto) yr amrywiol sefydliadau gan bob un o'r sefydliadau. Mae'r sefydliadau i gyd wedi nodi eu rhagolwg rhagamcanol ar gyfer 18/19 yn hytrach na chyllidebau a pherfformiad yn erbyn eu cyllidebau. — Mae is-grŵp o fewn y BPRh sy'n ystyried methodoleg gyffredin ar gyfer gosod ffioedd ledled y rhanbarth (Let's Agree to Agree) sy'n ddull tebyg i ranbarthau eraill yng Nghymru.	


Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.7) Pecyn Agenda Cabinet 300719 — (1.4) Llythyr at y Gweinidog	— Mae gan ddogfen adroddiad y Cabinet (1.7) adran ar risgiau, er na ddefnyddiwyd hyn i restru unrhyw risgiau ond yn hytrach mae'n egluro gofynion cyfreithiol y fframwaith. — Yn union o'i blaen, dywed y ddogfen "Cynigir datblygu cronfa gyfun di-risg i gynnwys trafodion ariannol er mwyn cwrdd â gofynion deddfwriaethol", sy'n awgrymu nad yw risg yn cael ei rhannu mewn unrhyw ffordd. — Mae'r unig restrau risgiau yn bodoli yn neges 15 Medi 2017 (1.4) i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, gyda'r nodyn yn cydnabod bod yn rhaid mynd i'r afael â'r risgiau ond heb roi unrhyw fanylion ar sut. — O ran risgiau ariannol, gan fod y cyfraniadau (heb eu trafod eto) yn cael eu rheoli gan bob un o'r sefydliadau unigol a dim cyfuno arian yn gorfforol, nid oes unrhyw rannu risgiau rhwng y sefydliadau. Wrth drafod gydag aelodau'r grŵp cronfeydd cyfun, soniwyd am groesgymorthdalw rhwng siroedd fel rhwystr i ddefnyddio dull cronfeydd cyfun 'gwir' (e.e. blaenoriaethau gwleidyddol, gwahaniaethau ardrethi, cyllid twf amrywiol ac ati rhwng siroedd). — Tynnwyd sylw hefyd at lefel gweithredu cronfeydd cyfun fel problem a'r dull a ffafrir fyddai defnyddio cronfeydd cyfun ar lefel ardal yn dibynnu ar feysydd penodol (swyddogaeth dros ffurf). — Mae'r BPRh wedi nodi eu bod wedi chwarae rhan agos yn natblygiad pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) ac wedi'i ystyried ond ni ellid pennu maint y dylanwad.	— Ystyried datblygu strwythur rhannu risg y mae'r gronfa'n bodoli ynddo ac yn ei gefnogi. — Byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh weithio tuag at sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cytuno ac yn ymuno â strwythur rhannu risg — Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r BPRh gofnodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn fanwl, gan gynnwys mesurau lliniaru ac ymatebion. — Ystyried cymhwysedd pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) wrth ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun, i helpu i symud ymlaen o ran aeddfedrwydd. — Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.3) Gwerthoedd y Gyllideb Gyfun — Cyfarfod 4 Hydref 2019	— Yn seiliedig ar y data perfformiad (1.3) a ddychwelwyd, mae'n ymddangos bod arian wedi'i wario tuag at nodau arfaethedig y gronfa gyfun, ond nid yw'r budd o gyfuno'r cronfeydd wedi'i wireddu eto gan nad yw cronfeydd yn cael eu cyfuno'n gorfforol. — Dylid nodi eto, fel y dywedwyd yn gynharach, nad yw'n ymddangos bod y cronfeydd yn cael eu cyfuno, gyda chyfraniadau mewn gwahanol feysydd yn cael eu rhestru yn erbyn y sefydliadau sy'n darparu. — Nid yw'n eglur a gafwyd unrhyw fudd o'r dull cyllido cyfredol. — Fel y disgrifiwyd ar y dudalen flaenorol, roedd y grŵp Cronfeydd cyfun yn teimlo y byddai mwy o fudd yn cael ei wireddu o ddull cronfa gyfun pe bai ar lefel ardal ar gyfer ardaloedd penodol yn hytrach na lefel ranbarthol. Byddai hyn yn chwalu heriau diwylliannol ac yn osgoi croesgymorthdalau ar draws siroedd. — Mae strategaeth gomisiynu integredig ar wahân yn cael ei chynhyrchu ar lefel ranbarthol a chynhyrchwyd PPA (cytundeb lleoli) ar gyfer cartrefi gofal a fydd yn amlinellu'r canlyniadau disgwylidiedig a'r trefniadau monitro contract ac ansawdd.	— Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig — Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh olrhain a dadansoddi lefelau gwariant i sicrhau eu bod yn sicrhau budd. — Gallai'r BPRh ddadansoddi a fyddai modd ennill buddion o weithredu dull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol. — Ystyried cymhwysu pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.4) Cofnodion Tîm Prosiect Rhanbarthol y Gyllideb Gyfun, sawl dogfen — (1.11) Dogfen wedi'i sganio gan Gyngor Sir Ddinbych	— Mae'r trefniadau cyllido yn cael eu hadolygu bob chwarter. Ymhellach, ymddengys bod Tîm Prosiect y Gyllideb Gyfun yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, er ei bod yn ymddangos bod yr un olaf a dderbyniwyd fel tystiolaeth wedi digwydd ym mis Tachwedd 2018 (1.4). Fodd bynnag, yn y ddogfen hon, er bod tystiolaeth bod dulliau a chyfleoedd newydd yn cael eu hystyried, mae'n anodd asesu a yw hyn yn cael ei ddatblygu neu a roddwyd unrhyw gynlluniau ffurfiol ar waith i ymchwilio i hyn. — Mae'r wybodaeth a ddychwelwyd yn nodi nad oes unrhyw amrywiadau rhestredig ond mae hyn yn adlewyrchiad o bob sefydliad yn rheoli eu cyfraniadau a'u gwasanaethau eu hunain ar wahân er eu bod i gyd yn nodi eu gwariant. — Awgrymodd y trafodaethau gyda thîm y prosiect fod cyfeiriad teithio ar gyfer y rhaglen Trawsnewid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i wreiddio mewn model seiliedig ar ardal a bod parodrwydd i ddefnyddio cronfeydd cyfun yn y cyd-destun hwn. Mae'r BPRh yn defnyddio'r pecyn cymorth gwerthuso opsiynau i helpu timau prosiectau i ddewis y dull priodol. Byddai'r meysydd blaenoriaeth yn benodol i ardal ac yn cynnwys rhagnodi/cyffuriau, gofal iechyd parhaus a gwasanaethau cymunedol. Nododd y drafodaeth y byddai effaith y dull ardal a menter ganolog hwn yn golygu newid mewn cyllidebau, er enghraifft gallai fod gostyngiad yn y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer cartrefi preswyl a mwy o wariant ar gartrefi nyrsio.	— Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BPRh adolygu a dogfennu gweithredoedd a chynlluniau sy'n cael eu dwyn ymlaen o'r cyfarfodydd chwarterol yn rheolaidd. — Gallai'r BPRh ystyried sut mae'n monitro effaith ei weithredoedd, gan ystyried yn benodol sut mae eu gweithredoedd wedi cyd-fynd â'u hamcanion datganedig.

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.3) Gwerthoedd y Gyllideb Gyfun — (1.4) Cyfarfodydd y Gyllideb Gyfun, amrywiol — Cyfarfod 4 Hydref 2019	— O'r holl ddogfennau a adolygwyd, yn enwedig cyfarfodydd Tîm Prosiect y Gronfa Gyfun (1.4), mae'n amlwg bod rhywfaint o aliniad o ran y dull ar gyfer y trefniant cyllido cyfun penodol hwn. Fodd bynnag, mae'n cynnal y status quo ac nid yw'n gwireddu buddion defnyddio cronfeydd cyfun fel cyfrwng yn yr achos hwn. Ymhellach, o'r data perfformiad (1.3) a ddarparwyd, sy'n dangos bod gwahanol gyfranwyr yn ariannu eitemau yn uniongyrchol, y rhagdybiaeth yw nad oes unrhyw fudd nac anfantais i'r dull cyllido a ddefnyddir. — Ymhellach, fel y soniwyd yn gynharach yn yr adolygiad hwn, mae Sir Ddinbych yn cynnal y trefniant cronfa gyfun ond mae pob un o'r sefydliadau'n rheoli eu cyfraniadau eu hunain (heb eu cytuno a'u trafod eto) — Amlygodd tîm y prosiect fod yna gronfeydd cyfun eraill sydd wedi gweithio'n dda ond nid yw'r rhain wedi'u hadolygu yn yr adroddiad hwn. — Cytunodd yr BPRh ar egwyddorion troswaol i reoli cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn sydd ar hyn o bryd yn rhannu gwariant a ragwelir gan bob un o'r sefydliadau ac yn defnyddio dulliau cyson mewn methodoleg gan gynyddu dealltwriaeth rhwng sefydliadau i raddau ond rheolir y gwasanaeth a'r trefniadau ariannol ar wahân gan bob un o'r sefydliadau a hynny'n cynnal y status quo.	— Gallai'r BPRh ddadansoddi a yw buddion yn cael eu hennill o ddull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol. — Gallai'r BPRh ystyried meysydd penodol o'r cyfraniadau i'w darparu fel gwasanaeth integredig. Ceisio nodi a ellid defnyddio cronfa gyfun wirioneddol fel cyfrwng i gyflawni hynny. — Ystyried cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Gallai BPRh Gogledd Cymru fynegi'n gliriach eu nodau a'u cynlluniau pendant ar gyfer y gyllideb gyfun ranbarthol ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, yn enwedig mewn perthynas â'u hagenda trawsnewid ehangach. Yn ogystal, gallai'r BPRh ystyried cyfuno eu cronfeydd yn gorfforol i sicrhau'r budd mwyaf o gyllideb unedig a rhannu risg i ddarparu gwasanaeth di-dor.



Powys

Trosolwg



Mae cytundeb Adran 33 yn amlinellu sut mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl ac i wella canlyniadau i bob oedolyn ag anghenion gofal preswyl. Mae'r cynllun yn sefydlu cronfa gyfun a chronfeydd arweiniol heb eu dirprwyo o dan Adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (Cymru). Buddion arfaethedig y cynllun yw:

- Gwell canlyniadau i'r rheini ag anghenion gofal preswyl
- Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at gartrefi gofal preswyl a nyrsio y tu allan i Bowys
- Dewis o opsiynau llety
- Gwell ansawdd, diogelwch, trawsnewidiadau a chydlyniant
- Gwasanaethau integredig
- Darpariaeth gynaliadwy
- Gwell effeithiolrwydd gwariant trwy well comisiynu gofal iechyd, gosod ffioedd, datblygu'r farchnad, a chynaliadwyedd y farchnad

Aelodau allweddol y BPRh




- Cyngor Sir Powys
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Swyddogion cysylltiedig



- Dylan Owen - Cyngor Sir Powys
- Martin Heuter – Cyngor Sir Powys
- Hayley Thomas – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Clare Lines – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	— Nododd aelodau'r BPRh a oedd yn rhan o'r drafodaeth mai pwrpas y gronfa gyfun yw mabwysiadu un system ar gyfer comisiynu, caffael a monitro contractau. Nod hyn yw sicrhau y bydd gan y rhanbarth arferion comisiynu mwy effeithlon ac effeithiol. — Dywedodd aelodau'r BPRh eu bod yn anelu at drawsnewid sut maen nhw'n darparu gwasanaethau ar hyn o bryd yn unol â'u strategaeth iechyd a gofal. Gwnaethant nodi mai dim ond un o nifer o fecanweithiau yw'r gronfa gyfun i wella canlyniadau a symud i ffwrdd o fodel gofal sydd wedi dyddio. — Dywedodd aelodau'r BPRh y siaradwyd â nhw y bu nifer o drafodaethau am y grŵp oedran yr oedd y gronfa gyfun yn gysylltiedig ag ef. Roeddent wedi trefnu gweithdy ar 1 Tachwedd 2019 i drafod ymhellach. — Nododd y BPRh fod ganddyn nhw gynllun rhaglen. Maent yn ddiweddar wedi penodi rheolwr rhaglen, sy'n cychwyn ym mis Ionawr 2020 i'w helpu i symud ymlaen.	Yn unol â'r Strategaeth Iechyd a Gofal, ystyried datblygu a blaenoriaethu nodau i gyrraedd amcanion y gronfa gyfun a mesur buddion disgwyledig gyda DPA.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Adran 33 – (1.13) Cofnodion JPB	— Mae'r cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'r gronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal (1.1), yn diffinio amcanion lefel uchel sy'n cwmpasu cwmpas eang o feysydd ym maes llety cartrefi gofal. — O adolygu cofnodion y JPB, mae'n awgrymu bod cwmpas yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.	


Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	- Dywedodd aelodau'r BPRh y siaradwyd â hwy fod y ffaith bod yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cyd-ffinio wedi helpu gyda'r trefniadau llywodraethu.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
Adolygiad pen desg — (1.1) Cytundeb Adran 33 — (1.2) Cynllun CHC IRC Adran 33 — (1.8) BIAP Cyllid Awst 2018	— Mae Adran 5 cytundeb A33 yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu. — Yn y cytundeb A33, diffinnir partner arweiniol cronfa, gyda dogfennaeth ynghylch ffynhonnell cronfeydd, cynnal a gweinyddu cronfeydd, trefniadau anfonebu, risgiau ariannol, trefniadau comisiynu a chaffael, gofynion archwilio, datrys anghydfod, rhwymedigaethau, yswiriant ac indemniadau a chyfalaf. Mae hyn yn bodoli yn y ddogfen "Cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'r gronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal".	


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	— Nododd aelodau'r BPRh fod y grŵp gweithredol yn adrodd i'r Cyd-Fwrdd Partneriaeth. Mae'r Cyd-Fwrdd Partneriaeth yn gyfrifol am drefniadau partneriaeth. — Dywedon nhw fod ganddyn nhw gynllun ariannol ac maen nhw'n adrodd ar unrhyw amrywiant. Gwnaethant gynghori bod paneli CHC yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â lleoliadau CHC unigol. — Cyngor Sir Powys sy'n gyfrifol am y sefyllfa gyffredinol.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Adran 33	— Cytunir ar gamau gweithredu a phenderfyniadau mewn cyfarfodydd A33, fel y profwyd yn y gwahanol gofnodion cyfarfod A33 a ddarparwyd. Fel y manylir yn nogfen "Cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'r gronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal", mae yna bartner cronfa arweiniol diffiniedig sy'n gwario'r arian ar ran cyfranwyr y gronfa gyfun ehangach. Mae'r cytundeb hwn ar swyddogaeth y partner arweiniol wedi'i lofnodi a'i gytuno gan bartïon cysylltiedig. — At ei gilydd, gwneir penderfyniadau yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn Adran 33, mae partner arweiniol yn bodoli, a chytunir ar strwythur gwneud penderfyniadau.	

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	Nododd y BPRh fod ganddynt gofrestr risg mewn perthynas â'r rhaglen a bod cofrestrau risg ymhob sefydliad hefyd.	— Gallai'r BPRh ystyried: — Sut mae risgiau sy'n benodol i'r gronfa gyfun yn cael eu cofnodi a'u holrhain, a mesurau lliniaru yn cael eu cynllunio a'u gweithredu
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Adran 33	— Mae'r cytundeb Adran 33 yn amlinellu bod proses risg sylfaenol o ran cyllid ar gael yn y ddogfen graidd ("Cytundeb adran 33 rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'r gronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal"). Mae'r broses yn datgan yn benodol "rhaid codi unrhyw orwariant a ragwelir a nodwyd cyn gynted â phosibl ar gyfer ymgynghori a nodi camau lliniaru".	— Cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	— Nododd y BPRh fod gweithio ar y cyd yn bwysig iawn. Un dull y dywedasant ei fod yn ddefnyddiol ac yn llwyddiannus oedd dod â phobl ynghyd trwy nifer o weithdai. Gwnaethant ddarganfod, trwy fabwysiadu dull cydweithredol, eu bod yn gallu trafod materion a datblygu opsiynau ar y cyd. — Maent wedi gweld cytundeb adran 33 cynhwysfawr a manwl yn ddefnyddiol iawn. — Dywedasant fod gweithio ar y cyd wedi helpu'r ddau sefydliad i ddeall y pwysau a'r heriau. Mae hefyd wedi helpu trafodaethau mewn perthynas ag ystyried modelau cyflenwi amgen. Er enghraifft, cawsant weithdy ar eu model ail-alluogi a sut y gallai gefnogi'r model gofal cyfan. — Penodwyd rheolwr cronfa gyfun ac mae'n dechrau ym mis Ionawr 2020. Byddant yn canolbwyntio ar gael llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. — Dywedasant hefyd eu bod wedi dysgu llawer o'u hadroddiad perfformiad canlyniadau cyfun a sengl - sut rydyn ni'n mesur symud ymlaen. — Dywedasant y bu nifer o fuddion anffurfiol fel: — Mae cael pawb mewn ystafell gyda'i gilydd wedi helpu i gael gwared ar anawsterau. — Mae gan bob parti fynediad at y ffigurau ariannol.	— Gallai'r BPRh ystyried: — Datblygu'r adroddiad perfformiad i ddangos tueddiadau dros amser. — Diffinio mesurau i olrhain a yw'r gronfa'n cyflawni ei nodau. — Ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.
Adolygiad pen desg – (1.3) Adroddiad Perfformiad Integredig A33	— Yn seiliedig ar “A33 – Cartrefi Gofal: Adroddiad Perfformiad Integredig, Awst 2019”, gellir gweld bod cronfeydd cyfun yn cael eu gwario tuag at amcanion y gronfa. Byddai'n ddefnyddiol wrth i'r gronfa ddatblygu i weld tueddiadau data dros amser.	

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	— Nododd y BPRh eu bod am alinio datblygiad eu cronfa gyfun gyda'u strategaeth ar gyfer y dyfodol.	— Gallai'r BPRh ystyried: — Sut i symud ymlaen gydag aliniad y cronfeydd gyda strategaeth y dyfodol — Datblygu DPA clir sy'n cyd-fynd â'r strategaeth a'u hadolygu'n rheolaidd.
Adolygiad pen desg — (1.1) Cytundeb Adran 33 — (1.14) Grŵp Gweithredol - Action Tracker — (1.4) Cofnodion BPRh	— Yn y cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'r gronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal, mae'n nodi bod y cwmpas yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd i ddeall lle y gellir gwella cynnydd. — Mae offeryn cynllunio gweithredu yn bodoli sy'n dangos yr hyn y mae angen i randdeiliaid ei wneud er mwyn symud ymlaen â'r gofynion cyllid ("33 Operational Group - ActionTracker.xlsx"). — Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd iawn, gyda thrafodaeth yn bodoli o fewn y gronfa gyfun ac ar lefel BPRh (gweler y dogfennau a chofnodion a ddarparwyd).	— Adolygu a nodi cerrig milltir ar gyfer y gronfa yn unol â'i datblygiad cyffredinol a'i haeddfedrwydd i gyflawni ei strategaeth. — Ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd.

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 14 Hydref 2019	— Teimlai'r BPRh fod y cynnydd hyd yma wedi'i gefnogi gan ffin gydffiniol ac uwch dîm eglur. — Roedd yr holl aelodau y siaradwyd â nhw, yn teimlo y gallent siarad yn rhydd ac roeddent wedi ymrwymo i symud ymlaen. — Penodwyd rheolwr cronfa gyfun newydd ac mae'n dechrau ym mis Ionawr 2020.	— Ystyriwch ddadansoddi a yw dull y gronfa gyfun wedi darparu budd dros wariant unigol partneriaid.
Adolygiad pen desg – (1.1) Cytundeb Adran 33 – (1.3) Adroddiad Perfformiad Integredig A33 – (1.4) Cofnodion BPRh	— Mae'r cofnodion ac adran 33 yn dangos bod y sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd tuag at ganlyniad cadarnhaol.	

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Y maes allweddol lle gallai Powys ddatblygu eu haeddfedrwydd yw mewn perthynas â threfniadau rhannu risg cronfeydd cyfun. Yn ddiweddar, penododd y BPRh Reolwr Cronfa Gyfun ac maent yn gobeithio y bydd y penodiad hwn yn helpu i ddatblygu aeddfedrwydd ar draws nifer o feysydd.



Gorllewin Morgannwg

Trosolwg



Nod strategol trosfwaol y Cytundeb Adran 33 hwn yw sicrhau:

- BPRh cydgysylltiedig ar gyfer sicrhau darpariaeth integredig o ansawdd uchel
- Gwasanaethau Cartref Gofal cost-ffeithiol i bobl hŷn 65 oed a hŷn
- Bod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn cael eu diwallu
- Sefydlu trefniadau cronfa gyfun o dan Adran 33 o'r Ddeddf o 6 Ebrill 2018.

Aelodau allweddol y BPRh



- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Swyddogion cysylltiedig



- Dave Howes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Cadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Oedolion
- Chris Davies, Prif Bartner Busnes, Cyngor Abertawe
- Peter Field, Atal, Llesiant a Chomisiynu
- Richard Bowmer, Cyllid, BIP Bae Abertawe
- Nicola Trotman, Cyfarwyddwr Dros Dro Rhaglen Trawsnewid, Gorllewin Morgannwg
- Geoff Powell Cyllid Cyngor Castell-nedd
- Ian Austin Rheolwr y gronfa gyfun


Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Atodlen 1 — (1.11) Strategaeth Gomisiynu	— Mae dogfen Atodlen 1 (1.1) yn darparu disgrifiad o'r nodau a'r amcanion, ynghyd â'r pwrpas trosfwaol a'r egwyddorion allweddol sy'n anelu at gael eu cyflawni. — Mae'r un ddogfen yn darparu set o nodau pendant (a restrir o dan adran 5.7, a 6). — Mae adran 9 yn nodi DPA posibl i'w holrhain er mwyn sicrhau bod y gronfa'n parhau i gael ei defnyddio'n dda ac yn gweithredu tuag at y diben a fwriadwyd. — Mae'r strategaeth gomisiynu (1.11) hefyd yn rhoi amlinelliad ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol i'w cynnal trwy'r trefniant partneriaeth. — At ei gilydd, mae hwn wedi'i ddiffinio'n dda ac yn cynnwys golwg ar y dyfodol.	— Ystyried diffinio'r meysydd y tu allan i'r cwmpas a'r buddion pendant ar gyfer y meysydd ffocws, y gellir eu mesur trwy ddefnyddio DPA. — Ystyried sut mae'r BPRh yn blaenoriaethu ei nodau rhestredig i sicrhau bod arian yn cael ei wario ar feysydd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol


Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Atodlen 4	— Mae Atodlen 4 (1.1) yn manylu ar y trefniadau llywodraethu yn fanwl. Mae hyn yn nodi sut yr ymdrinnir â diweddariadau neu newidiadau i'r trefniant cyllido, ochr yn ochr â nifer o gyfarfodydd bwrdd trwy'r flwyddyn.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
— Cyfarfod 28 Tachwedd 2019	— Mae'n manylu ar y dull ar gyfer awdurdodi contractau neu newidiadau cytundebol. — Mae'n manylu ar bwy ddylai fynychu'r gwahanol gyfarfodydd bwrdd trwy'r flwyddyn. — Ar ôl trafodaethau â rhanddeiliaid, nodwyd bod is-grŵp cronfeydd cyfun wedi'i hwyluso gan y rheolwr cronfeydd cyfun sy'n adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid Oedolion sydd wedyn yn adrodd i'r grŵp Gweithredol a BPRh.	


Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Cytundeb A33 — (1.1) Atodlen 4 Llywodraethu	— Mae cytundeb A33 a dogfen Atodlen 4 (1.1) yn rhoi mewnwelediadau i sut mae cyllid yn cael ei gyrchu a'i wario. — Mae rheolwr cronfa gyfun yn gyfrifol am reoli'r gronfa, ac mae'n gyfrifol am awdurdodi taliadau. Bydd y Partner Lletyol yn gwneud y taliadau. — Fel y nodir yn Atodlen 4 (1.1), mae sawl cyfarfod bwrdd trwy'r flwyddyn i adolygu a diweddarau penderfyniadau gwariant. — Wrth drafod â rhanddeiliaid, nodwyd bod argymhellion yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Trawsnewid Oedolion (fel y'u codwyd gan yr is-grŵp Cronfeydd cyfun) i swyddogion gweithredol y sefydliadau yn y BPRh. Mae'r swyddogion gweithredol yn mynd â'r argymhellion trwy eu Byrddau unigol.	— Dim argymhellion arwyddocaol.
— Cyfarfod 28 Tachwedd 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Atodlen 3 — (1.2) Nodyn dogfen cryno o ddim amrywiadau.	— Mae dogfen Atodlen 3 “Adnoddau: Cyllid a Gosod Cyllidebau” (1.1) yn amlinellu'n benodol Rhannu Risg mewn adran benodol sy'n ymdrin â “Trefniadau Perfformiad Ariannol a Rhannu Risg”. — Cofnodir risg gwariant gorwariant neu danwariant bob deufis, gydag adroddiadau chwarterol ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion. — Pan ragwelir gorwariant neu danwariant, rhaid i'r bwrdd “ystyried unrhyw gynllun gweithredu lle bo angen a diwygio os yw'n briodol neu gytuno ar gamau ychwanegol i'w cymryd i reoli'r amrywiant”. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw amrywiant (1.2). — Cadarnhaodd y cyfweiliad y bu penderfyniad i beidio â chael trefniant rhannu risg ariannol. Nid yw arian parod yn cael ei drosglwyddo i un cyfrif fel gyda rhai rhanbarthau eraill gan mai eu barn nhw oedd bod heriau a chostau hyn yn gorbwyso'r buddion yn y cam casglu data hwn. Pan fydd y data wedi'i ddadansoddi a chytundeb ar y ffordd ymlaen, mae'n bosibl y bydd y rhanbarth eisiau dilyn y llwybr rhannu risg. Gall hyn olygu dadfuddsoddi'n weithredol mewn rhai meysydd lle mae gorddarpariaeth a buddsoddi mewn eraill sydd â galw cynyddol. Codwyd croes gymorthdalw rhwng ardaloedd fel her.	— Er mwyn cefnogi datblygiad rhannu risg ymhellach ar gyfer yr BPRh, gallent ystyried: — Datblygu cofrestr risg, sy'n cael ei chynnal yn weithredol a sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi a'u holrhain, a bod mesurau lliniaru'n cael eu cynllunio. — Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig — Ystyried ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.3) Data Perfformiad Cronfa Gyfun Preswyl — (1.1) Atodlen 3	— Hyd y gellir gweld o'r data perfformiad (1.3) a ddarparwyd, gwariwyd arian tuag at eu nodau arfaethedig gan alinio â chwmpas y cronfeydd, fodd bynnag, ni wireddwyd buddion cyfuno cronfeydd yn ffisegol a rhannu risg fel sail i wasanaeth integredig. — Mae gwariant yn cael ei gyfrif ar lefel partner, er bod hyn wedyn yn cael ei grynhoi i lefel ranbarthol. — Fodd bynnag, cyfrifir cyllidebu cychwynnol a gwerth cronfa (fel yr amlinellir yn Atodlen 3 (1.1)) trwy grynhoi gwariant a ragwelir pob partner yn annibynnol. Mae hyn yn awgrymu nad oes unrhyw fudd wedi'i gynllunio na'i ddisgwyl o gronni cronfeydd, a bod y gronfa'n rithwir, yn hytrach nag yn wirioneddol. Caiff hyn ei gadarnhau yn nes ymlaen yn nogfen Atodlen 3, o dan "Mantoli Taliadau". — Mae'r sgôr a roddir yma yn adlewyrchu'r gwariant wedi'i dargedu tuag at amcanion y gronfa. — Rhannwyd data ac yn y lle cyntaf mae'n cael ei ddadansoddi ar lefel ranbarthol gyda'r bwriad o gytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer y gwasanaeth hwn. — Mae strategaeth gomisiynu ar y cyd wedi'i chwblhau, mae datganiad sefyllfa'r farchnad yn cael ei adnewyddu ac mae methodoleg ffioedd cyffredin yn cael ei hystyried ar lefel ranbarthol.	— Mae'r budd o gyfuno cyllidebau dros wariant sefydliadol unigol yn dibynnu ar y garfan boblogaeth benodol a'i hanghenion ac nid yw'r un trefniadau yn addas i bawb. Gallai'r BPRh ddadansoddi a fyddai modd ennill buddion o weithredu dull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol.
— Cyfarfod 28 Tachwedd 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.1) Atodlen 4 – Llywodraethu — (1.4) Cofnodion BPRh — (1.2) Nodyn cryno o ddim amrywiadau	— Mae Cofnodion cryno BPRh (1.4) a ddarparwyd yn dangos bod trafodaethau amrywiol wedi digwydd. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn unol â'r cynllun a amlinellir yn Atodlen 4 (1.1), sy'n awgrymu y dylai llawer mwy o gyfarfodydd fod wedi digwydd erbyn hyn. — O ran adrodd ar y cwestiwn amrywiadau (1.2), ni fu unrhyw amrywiadau, sy'n dystiolaeth bod amrywiadau/gwyriadau yn cael eu hystyried. — Fel y gwelir yn y cofnodion (1.4), trafodir gweithredoedd ac ystyrir argymhellion cyn cael eu derbyn neu eu gwrthod. — Mae uchelgais i ddefnyddio cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol a chanfyddiad y grŵp yn y cyfweiliad oedd eu bod wedi llwyddo i ddefnyddio'r dull cronfa gyfun ar gyfer gofal canolraddol, offer ar y cyd a gwasanaeth mabwysiadu ar y cyd. Teimlai'r grŵp y byddai carfannau llai o gleientiaid fel plant ag anghenion cymhleth, oedolion ag anghenion cymhleth, yn elwa o gronfeydd cyfun ac y gallai fod rhagolwg rhanbarthol o alw a buddsoddiad gyda chysoniadau ac addasiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Gallai'r meysydd hyn hefyd elwa o gomisiynu gan un sefydliad. — Roeddent yn teimlo y gallai carfannau mwy o gleientiaid elwa o ddull ardal gan y gall anghenion ymhob ardal fod yn amrywiol.	— Er mwyn cefnogi datblygiadau yn y dyfodol, efallai yr hoffai'r BPRh ystyried y canlynol: — Cyfarfodydd i'w cynnal yn unol â'r trefniadau llywodraethu. — Pan gytunir ar gamau gweithredu, gellid diffinio'r perchnogion a'r dyddiadau cau yn glir.
— Cyfarfod 28 Tachwedd 2019		

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
— (1.3) Data Perfformiad Cronfa Gyfun Preswyl — (1.1) Atodlen 3 — (1.4) Cofnodion BPRh	— Mae data perfformiad y gronfa gyfun (1.3) a chynllun Atodlen 3 (1.1) yn awgrymu bod cronfeydd yn cael eu trin yn annibynnol, gyda gorwariant a thanwariant yna'n cael eu hailddyrannu'n briodol ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Er nad yn gronfa gyfun wirioneddol, maent wedi osgoi problemau cyllido ac wedi gwireddu buddion cydweithredol trwy gyd-drafod materion allweddol. — O'r cofnodion a ddarparwyd (1.4), ymddengys nad oes unrhyw wrthdaro a bod sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd o fewn y trefniant partneriaeth cyffredinol.	— Gallai'r BPRh gynnal dadansoddiad i ddeall a ellid sicrhau budd trwy'r dull cyllido cyfun yn erbyn gwariant unigol. — Ystyried ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd — Ystyried cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Yr ystyriaeth allweddol ar gyfer BPRh Gorllewin Morgannwg yw mabwysiadu cyfuno cronfeydd yn gorfforol, ynghyd â chytuno ar restr o nodau pendant mewn dull wedi'i flaenoriaethu i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.



Gorllewin Cymru

Trosolwg



- Mae Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu cronfa gyfun rithwir. Nid ydynt yn cyfuno eu cyllid yn gorfforol. Maent wedi defnyddio gwybodaeth ariannol, comisiynu a gwybodaeth am y farchnad ar draws y BPRh i lywio eu penderfyniadau strategol mewn perthynas â chartrefi gofal. Mae hyn wedi cyflawni nifer o ganlyniadau cychwynnol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Maent yn bwriadu datblygu cyd-gomisiynu a sicrhau ansawdd ymhellach.
- Gan nad yw Gorllewin Cymru wedi cyfuno eu cyllidebau yn gorfforol, bydd yn ddefnyddiol olrhain cynnydd Gorllewin Cymru yn erbyn y rheini (fel Cwm Taf Morgannwg) sydd wedi cyfuno cyllidebau yn gorfforol i asesu eu canlyniadau. Roedd Gorllewin Cymru yn awyddus i ddeall y cynnydd y mae pob BPRH wedi'i wneud, a gallai'r rhannu gwybodaeth hwn ledled Cymru ddylanwadu ar benderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â strwythur eu cronfeydd.

Aelodau allweddol y BPRh



- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda


Swyddogion cysylltiedig



- Jake Morgan (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Caerfyrddin)
- Jill Paterson (Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymuned a Gofal Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
- Chris Harrison (Pennaeth Comisiynu Integredig ar gyfer Cyngorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro)
- Martyn Palfreman (Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol)
- Kevin Pett (Arweinydd y Gronfa Gyfun ar gyfer PGGC)
- Y Cyngorydd Jane Tremlett (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin)

Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun


Lefel Aeddfedrwydd



Fframwaith Gwerthuso: Pwrpas a chwmpas y cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	— Nododd yr BPRh fod gan bartneriaid BPRh Gorllewin Cymru hanes o gyfuno cyllidebau a defnyddio cytundebau adran 33 rhwng sefydliadau partner, er enghraifft, y storfa offer ar y cyd. — Nododd aelodau'r BPRh eu bod yn ystyried y ddeddfwriaeth ac wedi gwneud penderfyniad i greu cyllideb gyfun rithwir i gyflawni ysbryd yr hyn a fwriadwyd yn y ddeddfwriaeth. — Gwnaethant nodi eu bod yn teimlo bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda i bob parti ac mae nifer o fuddion eisoes. — Amlinellodd aelodau'r BPRh gymhlethdod y rhan hon o'r model gofal. Mae hyn yn gwaethygu yn sgil daearyddiaeth a maint y rhanbarth, y marchnadoedd a'r gwahaniaethau yn y cyfraddau. — Nododd yr BPRh fod yna nifer o faterion y mae angen eu datrys o hyd mewn perthynas â chyfuno cronfeydd gan gynnwys: — Sut mae croniadau'n cael eu rheoli — Sut mae dileu dyled yn cael ei ystyried — Mae awdurdodau lleol yn cael eu hôl-dalu, a phe byddent yn cyfuno arian yn gorfforol, byddai angen talu hyn ymlaen llaw. — Sut mae profion modd yn cael eu hystyried?	— Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig — Ystyried ailedrych ar y trefniadau cyllidebau cyfun yng ngoleuni pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd y gronfa.
Adolygiad pen desg — (1.1) Cytundeb Cyllido Cyfun Craidd — (1.9) Dogfen Polisi Gweithredol	— Mae'r ddogfen Trefniadau Cyllido Cyfun craidd (1.1) yn esbonio'r cwmpas a'r cynnydd cyffredinol. — Mae'r ddogfen Polisi Gweithredol (1.9) yn amlinellu'r nod cyffredinol "ynghylch cartrefi gofal i bobl hŷn, gyda gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn i ystyried yr ystod lawn o swyddogaethau cartrefi gofal oedolion yn y rhanbarth." Mae hefyd yn nodi "Rhagwelir y bydd trefniadau ariannol agosach fyth rhwng partneriaid lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael gwared ar rwystrau ac yn hyrwyddo gwell trefniadau gweithredol ac yn arwain at ganlyniadau gwell." — Mae'r ddogfen Polisi Gweithredol yn parhau yn adrannau 5 a 6 i ddadansoddi'r nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd, gydag adran 9 yn manylu ar y cyfyngiadau. Mae adrannau 15 ac 16 yn nodi llinellau amser adolygu ac amcanion datblygu yn y dyfodol, gydag adran 17 yn rhoi golwg o'r llwybr ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth sy'n elwa o'r cronfeydd cyfun.	

Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd



Fframwaith Gwerthuso: Trefniadau llywodraethu cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	— Nododd yr BPRh fod y strwythur llywodraethu wedi esblygu. Yn wreiddiol, roedd gan yr BPRh strwythur llywodraethu a oedd ar waith hyd at ddechrau 2019, a oedd yn cynnwys y Grŵp Rhaglen Integreiddio Gwasanaethau a Chronfeydd Cyfun. Goruchwyliodd y Grŵp hwn y manylion wrth i'r BPRh sefydlu'r gronfa gyfun rithwir. O dan y trefniadau llywodraethu newydd, bydd gwaith y cronfeydd cyfun yn cael ei symud ymlaen trwy'r Grŵp Rhaglen Gomisiynu. Mae hyn yn adrodd trwy'r Grŵp Gweithredol Integredig i'r BPRh. Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig yn cynnwys 3 chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd. — Nododd yr BPRh, pan fydd angen gwneud penderfyniadau, bod y grŵp yn dod i ddealltwriaeth a chonsensws cydweithredol. Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio eu hawdurdod dirprwyedig lle bo hynny'n briodol. Pan fydd angen gwneud penderfyniadau y tu allan i'r cwmpas hwn, fe'u cyfeirir yn ôl at y sefydliad perthnasol i symud ymlaen trwy eu strwythurau llywodraethu. — Oherwydd y ffaith bod y gronfa gyfun yn rithwir, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bartner arweiniol.	— Wrth i'r BPRh gynyddu ei aeddfedrwydd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, gallai: – ystyried y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer cwestiynu penderfyniadau gwariant. – ystyried dynodi rheolwr cronfeydd cyfun i helpu i yrru datblygiadau ymlaen a sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Gallai fod yn ddefnyddiol myfyrio ar sut mae'r BPRh eraill yn defnyddio'r rôl hon. — Mae gan becyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) nodyn cyngor mewn perthynas â Llywodraethu a allai helpu i ddatblygu aeddfedrwydd yn y maes hwn.
Adolygiad pen desg – (1.9) Dogfen Polisi Gweithredol – (1.12) Cytundeb Terfynol – (1.1) 26 Mawrth 2018 Cofnodion y Bwrdd Gweithredol	— Ar hyn o bryd ac fel yr amlinellwyd yn y cytundeb terfynol (1.12) a ddarparwyd, mae'n ymddangos bod cyfranwyr y gronfa yn atebol am eu cyfraniadau eu hunain yn unig, heb unrhyw ystyriaeth i'r gwariant cyffredinol ei hun.	

Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Lefel Aeddfedrwydd

Disgrifiad o'r hyn sy'n ofynnol i gyrraedd y lefel aeddfedrwydd

1

Nid oes cytundeb ynghylch sut y gellir gwneud penderfyniadau. Mae arian yn cael ei wario gan bwy bynnag sydd â mynediad ac sy'n gweld yn dda i'w wario. Nid oes unrhyw bartner arweiniol diffiniedig na chyfrannwr mwyafrifol i'r gronfa.

2

Nid oes cytundeb ysgrifenedig ar gyfer sut y gellir gwario'r arian, er bod cytundeb llafar yn cael ei ddal. Serch hynny, gall unrhyw gyfrannwr gyrchu a gwario'r arian. Nid oes unrhyw bartner arweiniol na chyfrannwr mwyafrifol i'r gronfa.

3

Mae cytundeb ysgrifenedig, er y gall unrhyw gyfrannwr ddal i gyrchu'r arian a'i wario. Fodd bynnag, mae cyfrannwyr yn fwy awyddus i drafod opsiynau gwariant. Efallai y bydd partner arweiniol neu gyfrannwr mwyafrifol i'r gronfa

4

Cydymffurfir â chytundeb ysgrifenedig, er nad yw o reidrwydd yn cwrdd â gofynion deddfwriaethol. Mae penderfyniadau gwariant yn gofyn am gytundeb cyfrannwyr mewn modd y cytunwyd arno, a chedwir at hynny. Mae yna bartner arweiniol neu mae dulliau cymeradwyo cyllid cytunedig eraill ar waith.


5

Mae cytundeb ysgrifenedig clir ar gyfer sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol ag A33 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae partner arweiniol yn bodoli yn y gronfa neu cytunir ar drefniadau ariannu eraill i sicrhau y gellir defnyddio'r gronfa a'i gwario mewn modd cynhyrchiol.

Fframwaith Gwerthuso: Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cronfeydd

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	— Gan fod Gorllewin Cymru yn gweithredu cronfa gyfun rithwir, nid oes un gronfa o gyllid. — Dywedodd yr BPRh fod ganddynt olwg ar wariant yr holl sefydliadau partner. Teimlai'r BPRh fod hyn wedi caniatáu iddynt fod yn fwy masnachol mewn perthynas â sut maent yn comisiynu gwasanaethau. Roeddent yn teimlo bod gan hyn fudd canlyniadol mewn perthynas â chyfanswm lefel yr adnoddau. — Nododd yr BPRh, gan fod gan bob partner olwg ar y niferoedd, eu bod wedi gallu rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau ataliol a rheoli galw. Mae hyn wedi eu galluogi i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ledled y rhanbarth.	— Mae gan becyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) gyngor mewn perthynas â 'r elfen hon a allai helpu i ddatblygu aeddfedrwydd yn y maes hwn.

Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun



Fframwaith Gwerthuso: Sut y rhennir risg y gronfa gyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	— Oherwydd ystyriaethau lleoliad neu ystyriaethau daearyddol ac anwadalrwydd y farchnad, mae aelodau'r BPRh yn teimlo eu bod bellach yn gallu rhannu'r risg o reoli'r sector yn well. — Gan ei bod yn gyllideb rithwir, nid yw'r BPRh yn rhannu risg / gwobrau danwariant a gorwariant.	Wrth i'r gronfa ddatblygu, efallai yr hoffai'r BPRh ystyried: • gweithio trwy'r broses o gyfuno cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig • sut y gellid nodi risgiau o flaen amser, eu cofnodi a chytuno ar fesurau lliniaru. • Cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd


Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun



Fframwaith Gwerthuso: Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	Siaradodd aelodau'r BPRh am rai o'r canlyniadau cychwynnol. – Buddion comisiynu - Nododd y BPRh mai prif fudd a chanlyniad y gronfa gyfun rithwir hyd yma yw'r buddion comisiynu. Maent am ddatblygu ac adeiladu ar y trefniadau comisiynu ar y cyd. – Penderfyniadau a yrrir gan ddata - Nododd y BPRh fod ganddynt bellach olwg ar y tueddiadau ac y gallant ddadansoddi'r data ledled y rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniadau strategol wrth symud ymlaen. Gwnaethant nodi eu bod hefyd yn gallu rhannu gwybodaeth a chael sgwrs ar y cyd â phartneriaid. – Cytundeb cyn-leoli - Bellach mae ganddyn nhw gytundeb cyn-leoli (PPA) drafft safonol. PPA yw'r contract sylfaenol sydd gan bob un o'r sefydliadau partner gyda darparwyr cartrefi gofal. Mae'r PPA yn ymdrin â thelerau ac amodau, manylebau ac amserlenni. Fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio gan bob un o'r partneriaid. Ar hyn o bryd, mae gan bob sefydliad contract ar wahân, a nododd y BPRh y gall hynny fod yn ddryslyd, yn enwedig i ddarparwyr. – Gosod ffioedd - Mae'r BPRh yn mabwysiadu'r un fethodoleg mewn perthynas â gosod ffioedd. Dywedodd y BPRh y bydd y dull hwn hefyd yn helpu i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad (h.y., sicrhau bod ffioedd yn cefnogi darpariaeth gynaliadwy). Rhagwelir na fydd ffioedd yr un peth i ddechrau, oherwydd ystyriaethau lleol (e.e., gall costau staffio amrywio), ond efallai y bydd cysoni ar draws y Rhanbarth yn bosibl dros amser. – Gwell darpariaeth gwasanaeth - Nododd y BPRh fod set ddata'r gronfa gyfun a'r ymarfer a wnaed gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ennyn trafodaeth a llinellau ymholi sy'n berthnasol i sicrhau gwell darpariaeth gwasanaeth ar draws y Rhanbarth, gan godi arfer da. Mae cynigion yn cael eu datblygu, ond gallant gynnwys gwaith ar: sut y gellir cefnogi gofalcwyr yn fwyaf effeithiol (gohirio'r angen am ofal preswyl) a sut y gellir lleihau ymweliadau gofal dwy law (e.e., trwy dechnoleg neu offer). – Porth Lleoli - https://findaplace.wales/ Mae'r porth hwn yn ymgorffori cyfleuster chwilio am leoliadau cartrefi gofal oedolion hŷn yng ngorllewin Cymru. Mae hefyd yn borth i ddarparwyr cartrefi gofal ac fe'i defnyddir ar gyfer casglu gwybodaeth reoli sy'n ofynnol o dan contract, yn ogystal â bod yn borth i ddarparwyr roi gwybodaeth am bwy sydd yn eu cartrefi (gan sicrhau bod sefydliadau partner yn talu'r taliad cywir). Mae gwybodaeth yn cael ei 'darparu unwaith, ei defnyddio sawl gwaith' gan osgoi dyblygu proses (mae'r wefan yn disodli gwahanol drefniadau pob sefydliad).	— Ystyried datblygu mesurau i olrhain a yw'r gronfa'n cyflawni ei nodau. — Ailedrych ar y trefniadau cyfuno cyllidebau. Efallai y bydd pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yn helpu i symud pethau ymlaen.

Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol



Fframwaith Gwerthuso: Datblygiadau yn y Dyfodol

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	O siarad ag aelodau'r BPRh, maent am: – Datblygu eu cyd-gomisiynu a sicrhau ansawdd ar y cyd. – Parhau i ddadansoddi'r data a'i droi'n wybodaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol yn y dyfodol, yn enwedig o amgylch y model gwasanaeth ehangach. – Parhau i dynnu prosesau a gweithdrefnau at ei gilydd.	— Ystyried cymhwyso pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd. — Ystyried adolygu a nodi nodau newydd ar gyfer y gronfa yn unol â'i datblygiad cyffredinol a'i haeddfedrwydd.
Adolygiad pen desg – (1.3) Data Perfformiad – (1.5) Adroddiad Ch1&2 (19 Medi 2019) – (1.5) Pob Adroddiad	Fel y nodwyd yn yr adroddiad perfformiad (1.3), cynhelir adolygiadau bob chwarter,	

Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio




Fframwaith Gwerthuso: Cydweithio

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Cyfarfod y BPRh 7 Hydref 2019	— Nododd aelodau'r BPRh fod y trafodaethau wedi bod yn gadarn ac yn adeiladol. — Mynychodd nifer dda o randdeiliaid gyfarfod y gronfa gyfun ac yn ystod y drafodaeth roedd consensws ar gyfeiriad teithio ac alinio pwrpas.	— O'r drafodaeth gyda'r BPRh, bu buddion i weithio ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol, felly gallai'r BPRh ystyried gweithio drwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol a rhannu risg ariannol i gefnogi gwasanaeth mwy integredig.
Adolygiad pen desg – (1.3) Data Perfformiad – (1.9) Dogfen Polisi Gweithredol	Fel rhan o'r ddogfen Polisi Gweithredol (1.9), nodir y nod a ganlyn: "Rhagwelir y bydd trefniadau ariannol agosach fyth rhwng partneriaid lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael gwared ar rwystrau ac yn hyrwyddo gwell trefniadau gweithredol ac yn arwain at ganlyniadau gwell.".	

Fframwaith Gwerthuso: Crynodeb a Chasgliadau

Y meysydd allweddol lle gallai Gorllewin Cymru ddatblygu eu haeddfedrwydd yw mewn perthynas â phenderfyniadau, rhannu risg a chanlyniadau cychwynnol y gronfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd rhannu cyllidebau yn gorfforol. Felly, pe bai'r BPRh yn ystyried gweithio trwy'r broses o gyfuno eu cronfeydd yn gorfforol, byddai hyn yn datblygu aeddfedrwydd yn y meysydd hyn.



Cyfeiriadau

Cyfeiriadau

- Cytunwyd ar ddogfennaeth yr adolygiad pen desg gyda Llywodraeth Cymru.
- Anfonwyd ceisiadau am y ddogfennaeth y cytunwyd arni at bob un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ar 8 Awst 2019.
- Yna darparwyd y ddogfennaeth gan bob un o'r BPRh i ddangos tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed tuag at y cyllidebau cyfun penodol hyn a'u harfer gweithredol cyfredol. Derbyniwyd mwyafrif y ddogfennaeth erbyn 19 Medi 2019 gydag ychydig yn cael eu darparu yn dilyn cyfarfodydd gyda'r BPRh.
- Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r amrywiol ddogfennau y gofynnwyd i'r BPRh amdanynt ar gyfer yr adolygiad pen desg a gwblhawyd ym mis Medi 2019.
- Mae pob dogfen a dderbyniwyd wedi'i dosbarthu yn erbyn y categorïau y gofynnwyd amdanynt 1.1 - 1.12, gweler drosodd ar gyfer y dosbarthiadau.
- Darparodd BPRh Powys nodiadau dau ychwanegol ar gyfer a, a ddosbarthwyd fel 1.13 ac 1.14.
- Mae'r tudalennau canlynol yn darparu cofnod o'r ddogfennaeth a dderbyniwyd gan bob un o'r BPRh.
- Pe bai'r BPRh wedi darparu sylwadau yn erbyn rhai o'r categorïau yn lle dogfennau, mae'r rhain wedi'u cynnwys a'u nodi fel 'yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd'.
- Mae'r golofn dystiolaeth yn yr adroddiadau unigol yn croesgyfeirio'r dogfennau hyn i'r adran hon. Gweler isod.

Tystiolaeth	Crynodeb	Argymhellion i'w hystyried
Yn cynnwys cyfeiriad at y ddogfennaeth y gofynnwyd amdani, sy'n berthnasol ar gyfer pob Maes Allweddol		

- Nododd Llywodraeth Cymru hefyd nifer o ddogfennau ychwanegol yr oeddent am eu darparu i'r tîm adolygu. Derbyniwyd y dogfennau hyn o 25 Gorffennaf 2019. Mae pob dogfen a dderbyniwyd wedi'i dosbarthu yn erbyn y categorïau canlynol 2.1 - 2.4, gweler drosodd ar gyfer y dosbarthiadau.
- I gwblhau'r adolygiad, ategwyd y dogfennau a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad pen desg gydag un cyfarfod gyda phob BPRh. Dewisodd y BPRh y rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y cyfarfod hwn, i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r asesiad cyffredinol. Gellid darparu dogfennaeth ychwanegol yn y cyfarfod hwn. Lle digwyddodd hyn, mae wedi'i chynnwys fel tystiolaeth hefyd.

Data y gofynnwyd amdano

Gwybodaeth	Cyf	Data
Dogfennaeth cytundeb	1.1	Dogfennaeth cytundeb Adran 33 (A33) ar gyfer yr holl gronfeydd cyfun yn ôl blwyddyn ariannol gan gynnwys cwmpas, cyfraniadau, unrhyw risg a rennir/adroddir ac ati.
Amrywiadau Cytundeb	1.2	Manylion unrhyw amrywiadau o ran cyllido a defnyddio'r cytundeb A33 rhwng awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd ar draws y BPRh
Data Perfformiad	1.3	Data perfformiad ar gyfer cronfeydd cyfun sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn > 65 oed e.e. gostyngiadau neu gynnydd mewn oedi o'r cynllun gofal y cytunwyd arno i drefnu'r ddarpariaeth
Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/cyflawni/gweithredoedd	1.4	Nodiadau neu gofnodion sy'n berthnasol i gyllidebau cyfun cartrefi gofal sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn >65 oed o'r dyddiad gweithredu neu 18/19 hyd yma, pa bynnag yw'r diweddaraf
Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu lif gwaith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau / cyflawni/gweithredoedd	1.5	Nodiadau neu gofnodion sy'n berthnasol i gyllidebau cyfun cartrefi gofal sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed o'r dyddiad gweithredu neu 18/19 hyd yma, pa bynnag yw'r diweddaraf
Dyddiadau cyfarfod BPRh	1.6	Dyddiadau cyfarfodydd y BPRh ar gyfer Awst/Medi
Adroddiadau arbennig	1.7	Unrhyw adroddiadau a wneir gan sefydliadau unigol neu LIC neu Archwilio ar unrhyw un o'r cyllidebau cyfun cartrefi gofal sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed
Cyfrifon a ffurflenni misol	1.8	Datganiad cyfrif - misol a ffurflenni/adroddiadau misol ar gyfer cyllidebau cyfun gan BPRh sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed
Cynlluniau busnes/cyllid/gweithlu	1.9	Cynlluniau busnes neu gynlluniau geithredol/cyllid/gweithlu sy'n sail i'r cyllidebau cyfun cartrefi gofal sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed
Canlyniadau	1.10	Unrhyw ddata/adroddiadau canlyniadau ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed
Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer pob un o'r cytundebau cronfa gyfun sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn (>65 oed)
Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	1.12	Strwythur rheoli'r gronfa gyfun sy'n ymwneud â llety cartrefi gofal i bobl hŷn >65 oed, a rolau tîm, disgyblaethau, rolau hybrid/ newydd (anhysbys). Amlygu llefydd gwag ac am ba hyd y maen nhw'n wag
Cofnodion cyfarfodydd y Cyd-Fwrdd Partneriaeth (JPB)	1.13	Cofnodion cyfarfodydd JPB
Cofnodion cyfarfodydd A33	1.14	Cofnodion cyfarfodydd Grŵp Gweithredol A33 ers Ebrill 2018

Data y gofynnwyd amdano

Gwybodaeth	Cyf	Data
Pecyn cymorth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)	2.1	ADSSC Ffrwd Waith Adroddiad 2 ac Atodiad 2 a Ffrwd waith 3 Atodiad 1 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru
Asesiad aeddfedrwydd	2.2	Adroddiad asesiad aeddfedrwydd drafft a ddarperir gan Lywodraeth Cymru
Adroddiadau/Data	2.3	Adroddiadau a data cryno a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyllidebau cyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal
Polisi/gweithdrefnau	2.4	Polisi a gweithdrefnau ar gyfer comisiynu darpariaeth cynllun gofal defnyddwyr gwasanaeth unigol trwy'r gyllideb gyfun a ddarperir gan Lywodraeth Cymru

Caerdydd a'r Fro

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau	
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- <i>Deed of extension pooled fund.doc</i>	- Cytundeb partneriaeth terfynol (heb ei lofnodi)
1.2	Amrywiadau Cytundeb	- Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Ni ddefnyddiodd rhanbarth Caerdydd a'r Fro gytundeb adran 33 ar gyfer y gronfa gyfun"	
1.3	Data Perfformiad	- 1920Qtr1 DomRes Comissioning.doc	
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- <i>Item 2 3 Commissioning</i>	- <i>Item 2.1 RPB Draft Minutes 26.10.18</i>
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- <i>Item 3.1 Pooled Budget Workshop Minutes</i> - <i>090118 Joint Legal and Finance Meeting</i> - <i>20170627 Finance Leads Working Group</i>	- <i>Action notes from 180917 Updated.doc</i> - <i>Finance 110517.docx</i> - <i>Item 2 1 Action notes from 170523.doc</i> - <i>Item 2 1 Action notes from 170725.doc</i> - <i>Item 2 1 Action notes from 171117.doc</i> - <i>Item 2 Action notes from 160822.pdf</i> - <i>Item 2 Action notes from 161122.pdf</i> - <i>Item 2 Action notes from 170131</i> - <i>Item 2.1 Action notes from 020218.doc</i> - <i>Item 2.1 Action notes from 170328.doc</i> - <i>Cydbwyllgor Cyfreithiol a Chyllid 051217</i> - <i>Item 2.1 Action notes from 170427</i> - <i>Joint Legal Finance 051217</i>
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst, Medi)	- 24/09/19 - 22/10/19	
1.7	Adroddiadau arbennig	- <i>Joint commissioning and pooled budget for older cabinet report.pdf</i> - <i>18-01-22 January 2018- Minutes.pdf</i>	- <i>Joint Commissioning and Pooled Budget for Older People Service.pdf</i> - <i>19-03-04 Minutes.pdf</i> - <i>1.4 CONFIRMED MINUTES OF FINANCE COMMITTEE 270219</i>

Caerdydd a'r Fro

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	– <i>Pooled budget note for SOA</i> 9.5.19
1.9	Cynlluniau busnes /cyllid/ gweithlu	– Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Yng Nghaerdydd cynhaliwyd ymarfer cost gofal cynhwysfawr sy'n rhoi costau arferol gweithredu cartref gofal yn y Ddinas. Yn y Fro, defnyddiwyd pecyn cymorth <i>Let's Agree to Agree</i> i roi costau arferol gweithredu cartref gofal yn y Sir. Mae'r ddau awdurdod lleol wedi defnyddio gwahanol fathau o fethodoleg. Fodd bynnag, mae'r ddwy fethodoleg yn darparu dadansoddiad manwl iawn o wir gostau darparu cartrefi gofal gan gynnwys y gweithlu, costau adeiladu ac ati."
1.10	Canlyniadau	– Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd "Ddim ar gael"
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	– Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd "Dim newid"
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	– Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Mae cyfrifoldeb rheoli yn parhau gyda phartneriaid unigol, strwythur wedi'i nodi yn y ddogfen gytundeb. Nid oes angen rolau hybrid/newydd."

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- <i>The Cwm Taf Care Home Accommodation Pooled Fund.pdf</i>
1.2	Amrywiadau Cytundeb	- <i>Backing Docs for the review team 19.08.19.pdf</i> - <i>Year End Summary of Actual Spend Vs Fund</i>
1.3	Data Perfformiad	Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Yng Nghwm Taf Morgannwg nid oes gwahaniaeth rhwng dros 65."
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- <i>The Cwm Taf Care Home Accommodation Pooled Fund.pdf</i>
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- <i>Cwm Taf Morgannwg Pooled Accommodation Management Board 211118</i> - <i>2.i Draft Minutes Care Home Accommodation 010818</i> - <i>2.i Draft Minutes Care Home Accommodation April 2018</i>
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst, Medi)	- 19/09/19
1.7	Adroddiadau arbennig	- Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd – "Dim"
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	- <i>Draft Qtr 2 Report.xlsx</i>
1.9	Cynlluniau busnes / cyllid / gweithlu	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.10	Canlyniadau	Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Contract Cyffredin, Datganiadau sefyllfa'r farchnad i'w hadolygu a fydd yn helpu i siapia'r farchnad cartrefi gofal yn y dyfodol. Mae data lleoedd gwag ar gael yn rhwydd i helpu i lywio cyfeiriad teithio yn y dyfodol gan gynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth fewnol i ddiwallu anghenion yn well." Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg

Cwm Taf Morgannwg

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Nodir 4 cam allweddol fel gweithgareddau blaen-gynllun gwaith ac maent wedi'u rhestru yn y wybodaeth a ddychwelwyd ond heb eu cynnwys yma"
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Cynhelir y cronfeydd cyfun gan RCTCBC. Nid oes strwythur rheoli ychwanegol ar waith ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen adolygu hyn yng ngoleuni'r newid ffiniau a'r cyfeiriad yn y dyfodol."

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau		
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- Draft Section 33 Agreement- Pooled Budgets for Older People in Care homes (V23) 26.03.19	- BB Joint Contract April 18-V5 with Third party amendments - PNA	- BB RPB Part 9 05 18 - Service Specification V7 Final - Amended Joint contract April 2019
1.2	Amrywiadau Cytundeb	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg		
1.3	Data Perfformiad	- 1. Q3 Report – Gwent Leadership	- 6. Q2 Report – Gwent Leadership Updated	- Year end 2018/19 – Gwent leadership - Updated
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau / cyflawni/ gweithredoedd	- 1.January 2018 RPB Report SSWBA Part 9 Section 33 Agreement 19.12.17 - 3.RPB Updated report March 2018 - Agenda January 2018RPBv1	- 6.RPB Meeting Minutes_12.07.18 - 6a. Commissioning update March 2019 - 8a. S33 RPB Update January 2019 - 9.RPB Meeting minutes_24 th January - Agenda March 2018 v2	- 9.RPB Meeting minutes_060318 - RPB Meeting Minutes_9 th May 2019v1 - 10.RPB meeting Minutes_14 th march 2019 v1 return - Agenda May 2018 final - Agenda July 2018 v2
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaeth/ cyflawni/ gweithredoedd	- Steering Group notes 18.04.18 - Steering Group notes 4.4.19 - Steering group minutes – 23.08.18 - Steering Group and Commissioning Task and Finish Joint Notes 5.2.19	- Steering Group notes 08.01.19 - Steering Group minutes 24.07.18 - Steering Group Notes 13.06.18 - Steering Group Notes 22.03.18 - Steering Group notes 6.3.19	- Steering Group notes 16.05.18 - Steering Group Minutes 28.11.18 - Steering Group Notes 26.01.18 - Steering Group Minutes 20.09.18
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst, Medi)	Nid oes angen unrhyw ddogfennau		
1.7	Adroddiadau arbennig	- 1.7 MPS - 2019		
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg		
1.9	Cynlluniau busnes / cyllid / gweithlu	- Gwent Regional Fee Methodology V4	- Area Plan	

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.10	Canlyniadau	– RCG Programme Plan (v3) 23.05.2019 – RCG Notes 3.09.19
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau		
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- 666185 – Integration Agreement FINAL SIGN OFF	- 706123 – ICF agreement - Carers Funding	- V0.10 October 2019 (draft unsigned) - Transformation programme
1.2	Amrywiadau Cytundeb	- Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Dim amrywiadau ar hyn o bryd"		
1.3	Data Perfformiad	- Cyflwyno gwybodaeth gychwynnol Awst		
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau / cyflawni/ gweithredoedd	- Tîm Prosiect Cyllideb Gyfun Cofnodion Ebrill 260417 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 220817 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 270217 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 220817	- Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 220817 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 220317 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 240517 - 3.4 Llythyr at y Gweinidog-Camau sy'n cael eu cymryd	- Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 220817 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 280917 - Tîm Prosiect rhanbarthol y Gyllideb Gyfun 140218
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaeth/ cyflawni/ gweithredoedd	- CABINET AGENDA PACK 300719.pdf		
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst,Medi)	- 06/09/19		
1.7	Adroddiadau arbennig	- CABINET AGENDA PACK 300719.pdf		
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	- Cyflwyno gwybodaeth gychwynnol Awst		
1.9	Cynlluniau busnes /cyllid/ gweithlu	- Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg		

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau		
1.10	Canlyniadau	2017 PPA Variations Agreement.pdf 1st working draft adult PPA specification - Final OP care Homes Fees 2019	- N Wales PPA. Local variations pdf. - N Wales Quality Management Procedures - QMT v1 2018.xlsx	Template N Wales PPA. CCBC example
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	DCC Scanned doc		
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	RPB Structure diagram 2.0 Final.pptx		

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- Signed S33- Care Home 2019_20.pdf - Section 33 – the Pooled Fund for Care Homes
1.2	Amrywiadau Cytundeb	- Plan CHC IRC Section 33.xlsx
1.3	Data Perfformiad	- 190802 – INTEGRATED PERFORMANCE
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- Board_Item_2.30_Section33 Care Home - EC_item_1.2_Draft_Executive Team Minutes
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaeth/ cyflawni/ gweithredoedd	- 190809 – S33 WORKSHOP WRITE UP - 190528 – Section 33 Presentation - Agenda – Workshop 28.05.2019
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst,Medi)	- Doc 6. RPB Report on S33 Residential Care - RPB-Dec2018-Mid-term Review
1.7	Adroddiadau arbennig	- Letter RPB re 2019_20 agreement - RPB report January 2019 DRAFT 2.1.docx
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	- PTHB Finance August 2019.xlsx
1.9	Cynlluniau busnes / cyllid / gweithlu	- 190620 – High Level Plan v0.4xlsx
1.10	Canlyniadau	- 190802 – INTEGRATED PERFORMANCE
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	- Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Mae cyfres o weithdai wedi'u hamserlennu i sicrhau cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer y cytundeb cronfa gyfun. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mai (crynodeb wedi'i gynnwys uchod) ac mae gweithdai pellach wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd."

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau	
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	- <i>Op group management structure</i>	
1.13	Cofnodion cyfarfodydd y JPB	- Cofnodion JPB 2019 – 01 – 07 - Cofnodion JPB 2018 – 07 – 19 - Cofnodion JPB 2018 – 10 – 08	- Cofnodion JPB 2019 – 03 – 21 - Cofnodion JPB 2019 – 06 – 06
1.14	Cofnodion cyfarfodydd Grŵp Gweithredol A33 ers Ebrill 2018	- <i>Section 33 Ops Group mtg1 – notes</i> - <i>Draft S33 minutes 10.12.18 with MH am</i> - <i>Draft S33 Minutes 13.11.18 v1.0</i> - <i>Section 33 minutes Mtg 3 July 2018</i>	- <i>Section 33 minutes Mtg 3 July 2018</i> - <i>Section 33 minutes – Mtg 4 – July 2018</i> - <i>Section 33 Ops Group Mtg 1 – Notes</i> - <i>S33 Operational Group – Action tracker</i> - <i>Section 33 DRAFT minutes – Mtg5</i>

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	- 1. 2019 06 24 S33 AGREEMENT - 1. 2019 06 24 schedule 1- THE SERVICES - 1. 2019 05 22 Schedule 2 – THE HEALTH BOARD AND COUNCIL FUNCTIONS - 1. 2019 05 22 Schedule 3 – RESOURCES FINANCE AND BUDGET SETTING - 1. 2019 06 24 Schedule 5 – ALIGNMENT OF EXPENDITURE - 1. 2019 05 22 Schedule 4 – GOVERNANCE
1.2	Amrywiadau Cytundeb	- Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Dim amrywiadau mewn cyllid"
1.3	Data Perfformiad	- 2. Residential Pooled Fund Performance Data
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- 3. Cofnodion y Gronfa Gyfun
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaeth/ cyflawni/ gweithredoedd	- Fel yn 1.4
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst, Medi)	- Ceir cyfarfodydd yn chwarterol (17/10/19)
1.7	Adroddiadau arbennig	- 4. 2019 06 03 S33 Pooled Fund paper for cabinet
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	- 5. Residential Pooled Fund Data
1.9	Cynlluniau busnes /cyllid/ gweithlu	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.10	Canlyniadau	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg

Gorllewin Morgannwg

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	– 6. Strategaeth Gomisiynu Bae'r Gorllewin ar gyfer Cartrefi Gofal gan gynnwys atodiadau
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	– Yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd: "Mae Rheolwr y Gronfa Gyfun yn adrodd i Gyfarwyddwr Rhaglen Gorllewinol Morgannwg sydd wedyn yn adrodd i Gadeirydd y Bwrdd Oedolion, y Cyfarwyddwr neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Abertawe"

Cyf	Gwybodaeth	Dogfennau
1.1	Dogfennaeth Cytundeb	1.1 Pooled funding arrangements for care homes August 2019 (No value) Agreement (Mark up 14.11.18) - WWCP – Summative Report-Final - Carms Executive Board 180326
1.2	Amrywiadau Cytundeb	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.3	Data Perfformiad	1.3 report v2.0 181001
1.4	Cofnodion/nodiadau BPRh ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	1.4 18-01-08 Summary Note and Action 1.4 18-06-07 ITEM 3 – Draft Minutes 17-04-18
1.5	Cyfarfodydd/nodiadau is-bwyllgorau neu ffrwd waith ar gyfer tystiolaeth o gymeradwyaethau/ cyflawni/ gweithredoedd	- Cered cabinet 180329 - HDdUHN board 180329 - pembs cabinet 180319 - Q1&2 report v1.7 190919
1.6	Dyddiadau cyfarfodydd BPRh (Awst,Medi)	Nid oes angen unrhyw ddogfennau
1.7	Adroddiadau arbennig	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.8	Cyfrifon a ffurflenni misol	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.9	Cynlluniau busnes / cyllid / gweithlu	1.9 Operational policy final
1.10	Canlyniadau	Ni dderbyniwyd unrhyw ddogfennau pellach yn ystod cyfnod yr adolygiad pen desg
1.11	Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	1.11 19-05-02 ITEM 1 – SEB draft minutes 12 4 19
1.12	Strwythur rheoli ar gyfer y gronfa gyfun a'r gweithlu	1.12 2019 VPF (OACH placements) 190710 1.12 VPF for older persons Care Home Services Agreement – (Final) as agreed

